


Dŵr yfed 2008

Ansawdd dŵr yfed yng Nghymru

Gorffennaf 2009

Adroddiad gan y Prif Arolygwr Dŵr Yfed





Dŵr yfed yng Nghymru 2008



Cyhoeddwyd gan
Drinking Water Inspectorate
55 Whitehall
Llundain
SW1A 2EY

Ffôn: 020 7270 3370

Gwefan: <http://www.dwi.gov.uk>

© Hawlfraint y Goron 2009

ISBN: 978-1-905852-38-3

Y mae hawlfraint y trefniadau argraffyddol a'r dyluniad yn perthyn i'r Goron. Gellir atgynhychu'r cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logo) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu ffurf a bwrw ei fod yn cael ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel Hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl a tharddiad y cyhoeddiad.

Cynnwys

Cyflwyniad i adroddiad Cymru	4
Trefniadau cyflenwad dŵr	8
Profi ansawdd dŵr yfed	9
Canlyniadau ansawdd dŵr yfed	11
Dirnadaeth defnyddwyr o ansawdd dŵr yfed	30
Digwyddiadau yn 2008	34
Ymgynghori gydag Awdurdodau Lleol	37
Atodiad 1: Ffynonellau gwybodaeth eraill	41
Atodiad 2: Rhestr termau a disgrifiad o safonau	43
Atodiad 3: Digwyddiadau yng Nghymru yn 2008	56
Atodiad 4: Rhaglenni gwella yng Nghymru	67
Atodiad 5: Cystadleuaeth yn y diwydiant dŵr	68
Atodiad 6: Aseidiadau risg rheoliad 27 fesul awdurdod lleol	70
Atodiad 7: Tablau crynhoi data cwmnïau dŵr	71

Dŵr Yfed 2008 yw adroddiad blynyddol yr Arolygiaeth Dŵr Yfed ac mae'n cynnwys nifer o rannau.


Mae'r rhan yma'n disgrifio ansawdd dŵr yfed yng Nghymru. Mae'r Arolygiaeth hefyd yn cyhoeddi rhannau atodol ar gyfer chwe rhanbarth Lloegr (Rhanbarthau'r Dwyrain, Canolbarth, Gogledd, De, Thames a'r Gorllewin).

Mae pob rhan ar gael ar wefan yr Arolygiaeth <http://www.dwi.gov.uk> ac ar y gryno-ddisg sy'n cyd-fynd â'r adroddiad hwn ynghyd â crynodeb o ddata ar wahân ar gyfer rhaglenni samplo'r cwmni dŵr.

Cyflwyniad i adroddiad Cymru

Mae *Dŵr Yfed 2008* yn cael ei gyhoeddi fel cyfres o saith adroddiad gan ddelio â Chymru a chwe rhanbarth Lloegr. Mae pob adroddiad yn cyflwyno gwybodaeth am ansawdd dŵr yfed mewn ffurf sy'n cwrdd ag anghenion y rhai sydd â diddordeb yn ansawdd a rheolaeth ddiogel cyflenwadau dŵr yfed o safbwynt y defnyddiwr, hynny yw yr awdurdodau lleol a phwyllgorau rhanbarthol y Cyngor Defnyddwyr Dŵr.

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio ansawdd dŵr yfed yng Nghymru sy'n cael ei wasanaethu gan bedwar cwmni dŵr (Albion Water, Dee Valley Water, Dŵr Cymru a rhan o weithrediadau Severn Trent Water) gan gyflenwi dŵr i tua tair miliwn o ddefnyddwyr.



Roedd canlyniadau profi yn 2008 yn dangos bod ansawdd cyffredinol y dŵr yfed yng Nghymru'n dda. Y ffigwr ar gyfer cydymffurfio â safonau dŵr yfed yn nhapiau defnyddwyr oedd 99.95% o'i gymharu â 99.92% yn 2007. Mae'r ffigwr hwn wedi ei greu o ganlyniadau'r holl brofion ar gyfer 39 o baramedrau¹ gyda safonau Ewropeaidd neu genedlaethol. Mae amgylchiadau'r ychydig fethiannau a'r camau a gymerwyd i ddiogelu iechyd cyhoeddus yn cael eu trafod yng nghorff yr adroddiad hwn.

Mewn gweithfeydd trin dŵr yn 2008 roedd yna fwy o fethiannau microbiolegol yn gyffredinol ond llai o samplau oedd yn uwch na'r hyn a ddynodir ar gyfer cymylogrwydd gyda lleihad sylweddol yn yr achosion o gymylogrwydd a gofnodwyd o 39 yn 2007 i ddim ond 14 yn 2008. Y nifer o samplau oedd yn cynnwys coliform yn 2008 oedd 11 o'i gymharu ag wyth yn 2007. Cafodd *E.coli* ei ganfod ar dri achlysur. Mae mesur y tri paramedr yma'n gwirio pa mor dda mae cwmnïau dŵr yn cyflawni eu dyletswydd sylfaenol o sicrhau bod pob dŵr yn ficrobiolegol ddiogel cyn iddo gael ei gyflenwi i ddefnyddwyr. Achos cyffredin o fethiant oedd namau yng nghyfanrwydd y tanciau dŵr trin yng ngweithfeydd Dŵr Cymru.

Yn gyffredinol gwellodd ansawdd microbiolegol y dŵr sydd wedi ei drin a gaiff ei storio mewn cronfeydd gwasanaeth yn 2008 gyda 23 o samplau positif ar gyfer coliformau o'i gymharu â 39 yn 2007 a llai o samplau yn cynnwys *E.coli* (tri o'i gymharu â 10 yn 2007). Pwrpas y profi yma yw gwirio bod ansawdd y dŵr sydd wedi ei drin gaiff ei gadw yn y strwythurau storio strategol hyn ddim yn cael eu cyfaddawdu o ganlyniad i gynnal a chadw'r gronfa neu ei chyfluniad. Mae'n achos gofid bod yr Arolygiaeth wedi cael achos yn ystod y flwyddyn i fod yn feirniadol ynglŷn ag amseru ac ansawdd archwiliadau Dŵr Cymru.

Yn 2007, soniodd adroddiad blynyddol yr Arolygiaeth am ddigwyddiad oedd yn gysylltiedig â'r defnydd o sodor plwm wedi ei wahardd mewn datblygiad codi tai newydd yn Ynys Môn. Erbyn hyn mae'r datblygwr tai dan sylw yn fethdalwr. Mae Dŵr Cymru wedi cydweithio'n agos gyda pherchnogion y tai newydd ac o'r 34 tŷ a effeithiwyd mae 31 bellach yn cydymffurfio â'r safon plwm. Mae Dŵr Cymru wedi cyflwyno rhaglen waith er mwyn medru rhagweld sefyllfa debyg yn y dyfodol. Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth o dan y pennawd *Plwm* yn yr adran *Ansawdd Cemegol*.

Y tu allan i Gymru, yn ystod 2008, mae metaldehyd, cynhwysyn byw pelenni gwllithod, wedi ei nodi fel perygl plaladdwr newydd mewn rhai

¹ Ar gyfer 2008 mae'r cyfrifiad yn cael ei seilio ar 39 o baramedrau, yn y blynyddoedd cynt roedd hyn yn 40 p baramedrau. Dyw'r paramedr pH ddim bellach yn safon cenedlaethol.

ffynonellau dŵr crai gan 11 cwmni. Mae'r Asiantaeth Diogelu Iechyd wedi cynghori na ddylid disgwyl unrhyw effeithiau iechyd gwael o ganlyniad i'r lefelau hyn mewn dŵr yfed. Mae'r Arolygiaeth wedi cychwyn system weithredu orfodol er mwyn galluogi'r cwmnïau i ddatblygu a gweinyddu system reoli gydag Asiantaeth yr Amgylchfyd, rheolyddion eraill a rhanddeiliaid eraill er mwyn lleihau bodolaeth y plaladdwr hwn mewn dŵr crai. Mae cwmnïau yn ymwybodol o'r angen i ddiweddarau eu trefniadau asesiad risg plaladdwyr a'u trefniadau monitro.

Rhoddodd cwmnïau yng Nghymru wybod i'r Arolygiaeth o 54 digwyddiad, ac o'r rhain roedd 22 wedi eu pennu'n achosion yn ymwneud ag ansawdd dŵr oedd angen archwiliad annibynnol gan yr Arolygiaeth. Yn gyffredinol roedd yna fwy o achosion yn 2008 o'u cymharu â 2007 ac roedd y rhan fwyaf o'r rhain o ganlyniad i ddiffygion gyda gweithredu neu berfformiad y gwaith trin, enghreifftiau nodedig o hyn oedd colli rheolaeth o geulo yng ngwaith Llyswen Dŵr Cymru ar dri achlysur gwahanol. Ym Mis Awst rhoddwyd cyngor i ddefnyddwyr i ferwi dŵr ar ddau achlysur; unwaith pan gafodd system diheintio ei hosgoi mewn gwaith ac unwaith fel mesur rhagofalus tra bod archwiliadau'n cael eu cynnal i ffynhonnell a natur oocystau mewn ffynhonnell dŵr crai. Dyw'r Arolygiaeth ddim wedi eu bodloni bod Dŵr Cymru wedi gweithredu gweithdrefnau priodol er mwyn sicrhau bod pob un o'u gweithfeydd yn cydymffurfio'n llwyr â gofynion trin a diheintio'r rheoliadau. Mae'r cwmni'n ymgymryd â gweithrediadau a bydd yr Arolygiaeth yn cynnal cyfres o archwiliadau annibynnol yn ystod 2009 er mwyn gwirio cydymffurfiaid â Rheoliad 26. Mae crynodeb o natur, achos a hyd holl achosion Cymru yn 2008 i'w gweld yn *Atodiad 3*.

Rhoddodd llai o ddefnyddwyr yng Nghymru wybod am broblem gydag ansawdd eu dŵr yfed yn y tap yn eu cartrefi neu weithle fel a ddangoswyd gan y raddfa cyswllt is o bedwar o bob 1,000 o'r boblogaeth (o'i gymharu â pump o bob 1,000 yn 2007). Dros y tair blynedd ddiwethaf mae cwynion am afliwiad yn y dŵr oddi wrth gwsmeriaid Dŵr Cymru wedi gostwng oddeutu chwarter (o gyfanswm o 11,001 yn 2006 i 8,120 yn 2008) gan ddangos buddiannau rhaglen adnewyddu prif gyflenwad adran 19 hirdymor y cwmni. Bwriedir i'r rhaglen hon gael ei chwblhau ym mis Medi 2009. Mae Dŵr Cymru wedi rhoi gwybod i'r Arolygiaeth bod posibilrwydd o oedi pellach hyd at Rhagfyr 2009 fyddai'n effeithio rhan fach o'r gwaith oherwydd materion yn ymwneud â chael caniatâd gan yr adran priffyrdd. Mae'r Arolygiaeth yn ystyried bod angen i'r cwmni wneud ymdrech gyda rhanddeiliaid eraill i gyflenwi dŵr glân i'r defnyddwyr hynny sydd eisoes wedi disgwyl am amser hir am y gwelliannau yma. Fel arddangosiad o gryfder teimladau'r defnyddwyr hynny sy'n derbyn dŵr tap 'brwnt', yn gynwysedig yn yr adroddiad mae yna enghraifft o gwyn wnaed yn uniongyrchol i'r Arolygiaeth yn 2008 gan grŵp o drigolion oedd yn byw yn y Fenni a ddeisebodd Dŵr Cymru am raglen fflysio adferol


anefeithiol. Yn gyffredinol derbyniodd yr Arolygiaeth bedair cwyn oddi wrth ddefnyddwyr yn byw yng Nghymru o'i gymharu â thair cwyn yn 2007.

Yn ystod 2008, fe wnaeth dros 130,000 o ddefnyddwyr yng Nghymru elwa o ddŵr yfed o ansawdd gwell, oherwydd i Ddŵr Cymru gwblhau dwy raglen waith cyfreithiol rhwym i sicrhau cydymffurfiaeth gyda safonau dŵr yfed ar gyfer plaladdwyr â phroblemau cymylogrwydd mewn dau o'u gweithfeydd.

Trefniadau cyflenwadau dŵr

Mae pedwar cwmni dŵr yn cyflenwi dŵr yfed yng Nghymru: Albion Water (ALB), Dee Valley Water (DVW), Dŵr Cymru Welsh Water (DWR) a Severn Trent Water (SVT). Mae Severn Trent Water yn cyflenwi defnyddwyr yn Lloegr yn bennaf ond mae'n cael ei gynnwys gan ei fod hefyd yn cyflenwi dŵr i ddefnyddwyr yn ardal canolbarth dwyreiniol Cymru.

Ffigwr 1: Map yn dangos ffynonellau dŵr yfed fesul parth ar draws Cymru



Dŵr ar yr wyneb yw llawer o'r dŵr (93%) a gyflenwir yng Nghymru a ddaw o afonydd megis Dyfrdwy, Hafren, Tywi a Gwy. Mae'r ardaloedd tir uchel yng Nghymru yn ddalgylchoedd pwysig i ffynonellau. Tynnir dŵr o sawl cronfa gan gynnwys Alwen, Elan, Taf Fechan ac Efyrynwy, ac mae rhai o'r rhain hefyd yn cyflenwi defnyddwyr yn Lloegr. Er enghraifft, mae cronfa Elan yn cyflenwi dinas Birmingham a chronfa Efyrynwy yn cyflenwi defnyddwyr yng Ngogledd Sir Gaer a Glannau Merswy.

Ar draws Cymru daw cyfran fechan (6%) o'r cyflenwad dŵr o ffynonellau dŵr daear.

Mae ffeithiau crynodeb am isadeiledd cyflenwad dŵr yfed y rhanbarth i'w gweld yn Tabl 2 gyda gwybodaeth amlinellol daearyddol a demograffig.

Tabl 2: Ffeithiau allweddol ynglŷn â threfniadau cyflenwi yng Nghymru

Ffeithiau allweddol			
Nifer o'r boblogaeth a gyflenwyd	2,923,922	Gweithfeydd trin	90
Dŵr a gyflenwyd (litrau/diwrnod)	848 miliwn	Cronfeydd gwasanaeth	633
Nifer yr awdurdodau lleol	22	Parthau cyflenwi dŵr	104
Nifer y byrddau iechyd lleol	22	Hyd y prif bibellau dŵr (km)	27,491
Amcangyfrif o'r nifer o gyflenwadau dŵr preifat	3,951		
Ardaloedd cyflenwi		Cyfansoddiad y dŵr	
Sir Fôn, Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Sir Aberteifi, Sir Gaerfyrddin, Conwy, Sir Ddinbych, Sir Fflint, Gwynedd, Merthyr Tydfil, Sir Fynwy, Castell Nedd a Phort Talbot, Casnewydd, Sir Benfro, Powys, Rhondda Cynon Taf, Abertawe, Torfaen, Bro Morgannwg, Bwrdeistref Sirol Wrecsam.		Ffynonellau ar y wyneb	93%
		Ffynonellau dŵr daear	6%
		Ffynonellau cymysg	1%

Profi ansawdd dŵr yfed

Trwy gydol 2008, fe samplodd cwmnïau dŵr y dŵr yfed ar hyd a lled Cymru er mwyn profi cydymffurfiaeth gyda'r safonau yn y rheoliadau cyflenwad dŵr. Cynhaliwyd bron i dreian o'r profion ar ddŵr yfed wedi ei dynnu o dapiau dŵr defnyddwyr a ddewiswyd ar hap. At bwrpasau monitro, rhennir ardaloedd cyflenwi dŵr cwmnïoedd yn barthau wedi eu seilio ar boblogaeth (mwyaf 100,000). Yn gyffredinol, tynnir y samplau o dapiau defnyddwyr a bydd nifer y profion angenrheidiol ar ei uchaf yn yr ardaloedd gyda'r boblogaeth fwyaf. Cymerir samplau hefyd o

weithfeydd trin dŵr ac o gronfeydd ddŵr wedi ei drin (gwasanaeth). Gyda'i gilydd, cynhaliodd y pedwar cwmni dŵr gyfanswm o 313,335 o brofion yn ystod 2008. Dim ond 115 o'r profion hyn a fethodd gyrraedd y safonau a osodir yn y rheoliadau.

Tabl 3: Nifer o brofion a gynhaliwyd gan y cwmnïau yng Nghymru

Cwmni	Man samplu			Nifer y profion fesul cwmni	Amcangyfrif o'r boblogaeth
	Gweithfeydd trin dŵr	Cronfeydd gwasanaeth	Tapiau defnyddwyr (parthau)		
Albion Water	0 (0)	0 (0)	564 (1)	564	260
Dee Valley Water	9,556 (4)	9,444 (29)	7,210 (13)	26,210	159,000
Dŵr Cymru Welsh Water	45,312 (77)	123,460 (453)	86,160 (80)	254,932	2,711,000
Severn Trent Water	5,813 (2)	23,772 (57)	2,044 (10)	31,629	53,000
Cyfanswm Cymru	60,681 (83)	156,676 (539)	95,977 (104)	313,335	2,923,260

Mae'r niferoedd yn y cromfachau'n adlewyrchu nifer y gweithfeydd, y cronfeydd neu'r parthau a weithredwyd gan y cwmni hwnnw yng Nghymru yn 2008. Mae gan rai cwmnïau'r hawl i gynnal rhai profion ar samplau a gymerwyd o bwyntiau cyflenwi yn hytrach nag o dapiau defnyddwyr.

Mae'n ofynnol yn ôl y rheoliadau i'r cwmni brofi am bamedrau penodol ar amleddau rhagnodedig. Cynhelir mwyafrif y profion er mwyn profi am bamedrau gyda safonau Ewropeaidd neu Genedlaethol, ond mae'n ofynnol i'r cwmnïau dŵr hefyd, yn ôl y rheoliadau, i brofi am bamedrau eraill megis amoniwm, sylffad a chyfrifiadau coloni.

Mae canlyniadau diddordeb yn cael eu trafod yn yr adroddiad hwn. Mae crynodeb llawn o ganlyniadau'r profi gan bob cwmni ar wefan yr ADY (<http://www.dwi.gov.uk>) ac ar y cryno-ddisg sy'n cyd-fynd â'r adroddiad hwn.

Canlyniadau ansawdd dŵr yfed

Cyflwynir canlyniadau allweddol ansawdd dŵr Cymru mewn dau dabl, un yn dangos y canlyniadau ar gyfer paramedrau microbiolegol (Tabl 4), a'r llall yn delio â pharmedrau cemegol a ffisegol (Tabl 6). Trafodir ansawdd microbiolegol y dŵr yn gyntaf. Mae'r cwmnïau'n cyflwyno holl ganlyniadau eu profion yn fisol i'r Arolygiaeth. Cyflwynir crynodeb o ganlyniadau'r profion oddi wrth bob cwmni ar wefan yr Arolygiaeth <http://www.dwi.gov.uk> ac mae hefyd ar gael ar y gryno-ddisg gynhwysir yn yr adroddiad hwn. Hefyd ceir crynodeb o ystadegau'n disgrifio perfformiad pob cwmni sy'n cyflenwi Cymru yn *Atodiad 7*.

Er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd, mae'n rhaid cyrraedd safonau microbiolegol ymhob un o'r gweithfeydd trin dŵr a'r cronfeydd gwasanaeth. Mae'r canlyniadau'n cadarnhau diogelwch microbiolegol cyffredinol y cyflenwadau dŵr yfed yng Nghymru.

Mae arwyddocâd pob un o'r paramedrau microbiolegol ym mhob lleoliad yn amrywio ac ni ellir dehongli canlyniad positif unigol heb ystyried ffeithiau eraill. Disgwylir i bob cwmni ddilyn yr arfer gorau fel y'i nodir yn *The Microbiology of Drinking Water (2002)* a gyhoeddir gan Bwyllgor Sefydlog y Dadansoddwyr (SCA) ac a welir yn yr adran "Gwasanaethau Masnachol" gwefan Asiantaeth yr Amgylchedd ar <http://www.environment-agency.gov.uk>.

Ansawdd Microbiolegol

Tabl 4: Profion Microbiolegol

Y nifer o brofion a gynhaliwyd a'r nifer o brofion nad oedd yn cyrraedd y safon

Paramedr	Safon Presennol	Cyfanswm nifer y profion	Y nifer o brofion nad oedd yn cyrraedd y safon	Gwybodaeth ychwanegol
Dŵr yn gadael gwaith trin dŵr				
<i>E.coli</i>	0/100ml	6,865	3	DWR (3)
Bacteria Coliform	0/100ml	6,868	11	DVW (3), DWR (8)
<i>Cryptosporidiwm*</i>	< 1 oocyst ym mhob 10 litr. Safon trin	7,654	0	Monitryd mewn 20 gwaith yng Nghymru a ystyriwyd i fod â risg allan o gyfanswm o 90.
<i>Clostridium perfringens</i>	0/100ml	3,175	4	DWR (4)
Cymylogrwydd**	1NTU	10,677	14	DVW (9), DWR (4), SVT (1)
Dŵr yn gadael cronfeydd gwasanaeth				
<i>E.coli</i>	0/100ml	26,145	3	DWR (3)
Bacteria Coliform	0/100ml mewn 95% o brofion ym mhob cronfa	26,145	23	DVW (4), DWR (16) SVT (3) Llwyddodd y 539 cronfa yng Nghymru i gwrdd â'r rheol 95%.
Dŵr a samplwyd yn nhapiau defnyddwyr				
<i>E.coli</i>	0/100ml	7,918	2	DWR (2)
Enterococci	0/100ml	669	0	
<p>Nodiadau:</p> <p>*Daeth y safon ar gyfer <i>Cryptosporidium</i> i ben pan newidiwyd y rheoliadau o'r 22ain Rhagfyr 2007 ond fe barhaodd y monitro rheoliadol cysylltiedig ag asesiadau risg <i>Cryptosporidium</i> hyd at 1 Hydref.</p> <p>**Mae cymylogrwydd yn baramedr rheoli hanfodol ar gyfer trin dŵr a diheintio. Gellir dod o hyd i grynoded o fanylion yr holl brofion microbiolegol a gynhaliwyd gan bob cwmni ar wefan yr ADY neu ar y gryno-ddisg sy'n cyd-fynd â'r adroddiad hwn.</p>				

E.coli a choliform mewn gweithfeydd

Yn 2008, cynhaliodd yr holl gwmnïau yng Nghymru gyfanswm o 6,865 prawf mewn gweithfeydd a dim ond mewn tri sampl y daethpwyd o hyd i *E.coli* (3 DWR). Os darganfyddir *E.coli*, mae'n ofynnol ar gwmnïau i

ymateb ar fyrder er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Yr ymateb cyntaf ar ôl dod o hyd i *E.coli* yw samplu eto ac mewn ardal ehangach er mwyn cadarnhau bod y dŵr sy'n cyrraedd y defnyddwyr yn ddiogel. Yn 2008 cafwyd canlyniadau boddhaol i'r profion ychwanegol yma ym mhob achos.

Canfuwyd *E.coli* mewn sampl o waith Glascoed, ger Llanelwy, ym Mis Ionawr ac roedd bacteria coliform yn bresennol mewn sampl arall a gasglwyd ym Mis Mehefin. Darganfu archwiliad gan Dŵr Cymru bod to'r tanc cyswilt yn gollwng. Gosododd y cwmni bilen newydd ar y to. Yr un pryd ailosodwyd bibell bwmpio newydd oedd yn dueddol o fyrstio. Nid oes rhagor o fethiannau wedi eu cofnodi ar ôl hyn.

Yng ngwaith Cwellyn, ger Caernarfon, canfuwyd *E.coli* mewn sampl a gymerwyd ym Mis Mawrth o un o'r ddau bwynt profi dŵr wedi ei drin ar y safle. Roedd sampl a gasglwyd ym Mis Awst hefyd yn cynnwys bacteria coliform. Mae yna raglen waith sy'n gyfreithiol rhwym i wneud gwelliannau yn y gwaith hwn yn dilyn camau gorfodi gan yr Arolygiaeth. Mae'r methiannau hyn yn 2008 yn tynnu sylw at bwysigrwyd y ffaith bod rhaid i Dŵr Cymru gwblhau'r holl waith angenrheidiol mor fuan ag sy'n ymarferol (dyddiad cwblhau Mawrth 2010).

Darganfuwyd *E.coli* mewn sampl o waith Capel Curig, ger Betws-y-Coed, ym Mis Awst. Darganfu'r archwiliad gan Dŵr Cymru bod y gwaith cyfan, yn gynharchach yn y dydd, wedi cael ei atal rhag gwasanaethu er mwyn adlifo hidlydd carbon gronynnog actifedig (GAC) newydd yn y gwaith. Ers hynny mae'r cwmni wedi gosod ail hidlydd GAC newydd er mwyn galluogi'r gwaith i gario ymlaen i gyflenwi dŵr tra bod adlifo'n cael ei gyflawni.

Tabl 5: Darganfod *E.coli* ac Enterococci mewn gweithfeydd trin, cronfeydd gwasanaeth a thapiau defnyddwyr.

Cwmni	<i>E.coli</i> mewn dŵr yn gadael y gweithfeydd trin	<i>E.coli</i> mewn dŵr yn gadael y cronfeydd gwasanaeth	<i>E.coli</i> mewn tapiau defnyddwyr	Enterococci mewn tapiau defnyddwyr
Albion Water	0 – 0	0 – 0	0 – 12	0 – 4
Dee Valley Water	0 – 1,149	0 – 1,572	0 – 480	0 – 96
Dŵr Cymru Welsh Water	3 – 4,949	3 – 20,611	2 – 7,266	0 – 543
Severn Trent Water	0 – 767	0 – 3,962	0 – 160	0 – 26
Cyfanswm Cymru	3 – 6,865	3 – 26,145	2 – 7,918	0 – 669
Noder: Dangosir y canlyniadau fel nifer y profion cadarnhaol – cyfanswm y profion.				

Mae cynnal profion am *facteria coliform* yn rhoi tawelwch meddwl bod y dŵr sy'n mynd i mewn i'r cyflenwad wedi cael ei drin yn ddigonol i gael gwared ar bathogenau feirws a bacteria. Felly mae achosion niferus o *facteria coliform* mewn samplau a gymerir o un gwaith mewn blwyddyn felly'n achos pryder a bydd gofyn gweithredu. Yn 2008 digwyddodd y sefyllfa yma mewn dau o'r 90 o weithfeydd yng Nghymru. Gogledd Cwellyn a Glascoed oedd y rhain, y ddau waith yn cael eu rhedeg gan Dŵr Cymru fel a ddisgrifiwyd yn gynt yn yr adran hon.

Mae'r Arolygiaeth wedi nodi bod *bacteria coliform* wedi eu canfod mewn 11 o samplau o weithfeydd trin yng Nghymru yn ystod y flwyddyn (3 DVW, 8 DWR) a bydd y wybodaeth yma'n cael ei ystyried yn ystod rhaglen yr Arolygiaeth o archwiliad technegol wedi ei seilio ar risg.

Canfu Dŵr Cymru goliform mewn sampl a gymerwyd ym Mis Hydref o waith Llyswen, ger y Gelli Gandryll. Yn ystod yr archwiliad archwiliodd y cwmni y tanc dŵr wedi ei drin a dod o hyd i namau bychain. Gwnaed gwaith adferol er mwyn rhwystro unrhyw ddŵr glaw rhag dod i mewn ac mae'r canlyniadau wedi bod yn foddhaol.

Yng ngwaith Cefn Dryscoed, ger Glyn Nedd, daeth Dŵr Cymru o hyd i goliformau mewn sampl o ddŵr wedi ei drin ym Mis Medi yn dilyn cyfnod o law trwm a dirywiad yn ansawdd dŵr craidd o'r herwydd. Roedd pob sampl dilynol yn foddhaol.

***Cryptosporidium* mewn gweithfeydd**

Mae'r rheoliadau'n ymwneud â monitro *Cryptosporidium* mewn dŵr wedi ei drin wedi eu newid ers 1 Hydref 2008 pan newidiwyd yr asesiadau risg oedd yn ymwneud yn benodol â *Cryptosporidium* a monitro perthnasol am asesiadau risg aml-berygl cynhwysfawr ar gyfer pob gwaith trin a'r system gyflenwi perthnasol. Dan y gyfundrefn newydd mae monitro dŵr craidd yn dod yn ofyniad statudol.

Yn 2008, roedd angen monitro dan yr hen reoliadau mewn 20 gwaith (2 DVW, 17 DWR, 1 SVT).

Roedd pob un o'r canlyniadau ar wahân i un yn cyrraedd y safon trin blaenorol o <1 oocyst ym mhob 10 litr a doedd yna ddim adroddiadau o unrhyw achosion o cryptosporidiosis yn gysylltiedig â dŵr o'r prif gyflenwad yng Nghymru yn ystod 2008.

Clostridium perfringens

Bacteria sy'n ffurfio sbôr yw'r organeb hon ac mae'n hynod o wrthiannol yn erbyn amodau anffafriol yn amgylchedd y dŵr tebyg i eithafion mewn tymheredd a phrosesau pH a diheintio tebyg i glorineiddio a golau uwchfioled. Mae'n elfen naturiol o fflora coluddol hyd at 35% o fodau dynol ac anifeiliaid gwaed cynnes eraill. Mae'r nodweddion hyn yn ei wneud yn ddangosydd defnyddiol o ddifwyniant ymgarthol achlysurol neu hanesyddol o ffynonellau dŵr daear neu o berfformiad gwaith hidlo dŵr wyneb. Os oes unrhyw *Clostridium perfringens* yn cael ei ddarganfod yn y cyflenwad dylai'r cwmni gychwyn ar archwiliad yn syth.

Yn 2008, o'r 3,175 o samplau a gymerwyd yng Nghymru, dim ond pedwar oedd yn cynnwys *Clostridium perfringens* (4 DWR).

Roedd sampl a gymerwyd ym Mis Ionawr o waith Cwmystradllyn, ger Porthmadog, yn cynnwys *Clostridium perfringens*. Nododd Dŵr Cymru bod cymylogrwydd yn y dŵr craidd yn uwch ar y pryd oherwydd amodau tywydd anffafriol. Mae pob sampl ers hynny wedi rhoi canlyniadau boddhaol.

Canfu Dŵr Cymru *Clostridium perfringens* mewn sampl a gymerwyd ym Mis Chwefror o waith Llechryd, ger Aberteifi. Darganfu gwiriadau'r cwmni bod y cymylogrwydd a lliw'r dŵr craidd yn uwch ar y pryd oherwydd amodau tywydd anffafriol. Roedd y gwaith hefyd wedi cael ei gau a'i ailgychwyn nifer o weithiau er mwyn hwyluso gwaith adnewyddu oedd yn cael ei wneud ar y safle. Mae pob sampl ers hynny wedi rhoi canlyniadau boddhaol.

Ym Mis Mawrth canfu Dŵr Cymru *Clostridium perfringens* mewn sampl o dap defnyddiwr ym mharth Penarth/y Bari sy'n derbyn dŵr o dri gwaith gwahanol (gweithfeydd Llandegfedd, Llwynon a Court Farm). Ni chafwyd unrhyw amgylchiadau annaturiol yn y gweithfeydd yma pan gynhaliodd y cwmni wiriadau yno ac mae pob sampl ers hynny wedi rhoi canlyniadau boddhaol.

Cafodd *Clostridium perfringens* ei ddarganfod mewn sampl a gasglwyd ym Mis Mai o waith Pen Y Cefn, ger Dolgellau. Mewn ymateb, gwnaeth Dŵr Cymru ychydig o newidiadau i drefniadau'r gweithio yn y gwaith. Mae'r cwmni wedi nodi risg yn y gwaith hwn (Rheoliad 27) ac mae rhaglen o welliannau cyfreithiol rhwym i osod peiriannau trin ychwanegol (ceulo a hidlwyr newydd) wedi ei gynnwys yng nghynllun busnes Dŵr Cymru (PR09) i'w gwblhau ddim hwyrach na 2014.

Mae'r Arolygiaeth yn nodi bod Dŵr Cymru yn cynnal profion ar gyfer *Clostridium perfringens* ar dapiau defnyddwyr yn ogystal ag mewn gweithfeydd a phwyntiau cyflenwi. Y canllaw i gwmnïau yw y dylai

monitro fod ar bwyntiau cyflenwi (Llythyr gwybodaeth 10/2008) a bydd hyn yn hysbysu rhaglen o archwiliadau technegol yr Arolygiaeth yn y dyfodol.

Cymylogrwydd mewn gweithfeydd

Mesur o faint o olau sy'n gallu pasio trwy ddŵr yw cymylogrwydd ac mae'n nodi cyflwr neu "gymyledd" dŵr. Mae cymylogrwydd yn cael ei achosi gan ronynnau'n hongian yn y dŵr ac mae'n fesur pwysig i reoli perfformiad a diheintio. Mae cymylogrwydd yn cael ei fesur ar ddau bwynt ar hyd y gadwyn gyflenwi, mewn gweithfeydd trin lle mae'r safon 1NTU mewn grym ac mewn tapiau defnyddwyr lle mae'r safon 4NTU mewn grym. Mae'r drafodaeth ganlynol yn canolbwyntio ar ganlyniadau samplau a gymerwyd mewn gweithfeydd trin. Am wybodaeth ar brofion a gynhaliwyd mewn tapiau defnyddwyr, gweler y pennawd '*Cymylogrwydd*' yn yr adran *Ansawdd Cemegol*.

Roedd cymylogrwydd yn uwch nag 1NTU ar 14 o achlysuron allan o gyfanswm o 10,677 o weithiau ar draws Cymru (9 DVW, 4 DWR, 1 SVT). Mae hyn yn cynrychioli gwelliant sylweddol mewn perfformiad yn enwedig gan Dee Valley Water a Dŵr Cymru (roedd yna 39 o ganlyniadau anfodhaol o gymylogrwydd wedi eu nodi yn 2007) er hynny cafodd cymylogrwydd o >1NTU ei nodi gan Severn Trent Water, yn 2008 yng ngwaith Clungunford ger Llwydlo lle roedd y canlyniadau yn ystod y ddwy flynedd flaenorol wedi bod yn foddhaol.

Parhaodd gwaith Legacy Dee Valley Water, ger Wrecsam, i arddangos problemau cymylogrwydd (tri methiant) yn 2008. Roedd y trafferthion gwreiddiol wedi eu hachosi gan waddolion manganês wedi cronni yn y tanc cyswllt, ac aeth y cwmni ati i'w ddraenio a'i lanhau. Ond ym Mis Ionawr, yn dilyn toriad yn y pŵer, methodd y gwaith dosio calch ag ailgychwyn ac am gyfnod roedd y cemegyn hwn yn cael ei ddosio â llaw gan achosi problemau cymylogrwydd a barhaodd am o leiaf chwe diwrnod nes i reolaeth llawn gael ei adfer yn y gwaith. Mae'r holl ganlyniadau wedi bod yn foddhaol am weddill y flwyddyn.

Mae gwaith Llwyn Onn Dee Valley Water, ger Wrecsam, wedi parhau i arddangos problemau cymylogrwydd am y trydedd flwyddyn yn olynol. Cafwyd tri darlleniad uchel ym Mis Chwefror, a dywedodd y cwmni bod hyn oherwydd gwaddodion calch yn y linell samplo. Cychwynnwyd fflysio'r llinell yn rheolaidd bob wythnos ond bu methiannau pellach ym Mis Mai a Mis Tachwedd. Mae'r Arolygiaeth yn disgwyl i'r cwmni gymryd pob cam posibl i sicrhau monitro cymylogrwydd cynrychioladol ar y safle hon a bydd yn cymryd camau gorfodi os bydd methiannau pellach yn digwydd.

Roedd y pedwar achos oedd yn arddangos cymylogrwydd >1NTU mewn samplau a gymerwyd gan Dŵr Cymru o achlysuron unigol mewn gwahanol weithiau trin. Doedd y gwiriadau wnaed gan y cwmni ddim yn nodi unrhyw broblemau adnawdd dŵr cyfredol.

E.coli mewn cronfeydd gwasanaeth

Yn 2008, ar draws Cymru, cynhaliwyd cyfanswm o 26,145 o brofion mewn cronfeydd gwasanaeth gan y cwmnïau i gyd a chafodd *E.coli* ei ganfod ar dri achlysur yn unig (3 DWR). Mae hyn yn welliant sylweddol ar y 10 methiant a nodwyd mewn cronfeydd gwasanaeth yng Nghymru yn 2007. Wedi darganfod *E.coli*, mae'n ofynnol ar gwmnïau i weithredu ar fyrder er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Yr ymateb syth, wrth ddarganfod *E.coli* mewn cronfa wasanaeth yw samplo eto ac yn ehangach er mwyn cadarnhau bod y dŵr gaiff ei dderbyn gan ddefnyddwyr yn ddiogel. Yn 2008 rhoddodd y profion ychwanegol hyn ganlyniadau boddhaol a doedd yna ddim mwy o fethiannau *E.coli*.

Cafodd *E.coli* ei ddarganfod ar dri achlysur ym Mis Ionawr 2008 mewn tair cronfa oddi fewn i'r un system cyflenwad dŵr a weithredir gan Dŵr Cymru (Bryn Golau, ger Treffynnon; Cilcain, ger Yr Wyddgrug, a Bryn Edwin, ger y Fflint). Hysbyswyd yr Arolygiaeth o hyn a'i nodi'n ddigwyddiad ansawdd dŵr ac mae manylion pellach i'w cael yn *Atodiad 3*. Tynnwyd dwy o'r cronfeydd o wasanaeth a'u harchwilio. Roedd yr Arolygiaeth yn feirniadol o'r cwmni am oedi'r archwiliad o'r drydedd gronfa ac am anghysonderau yn yr archwiliad cyffredinol o fethiannau yn y cronfeydd gwasanaeth a ddigwyddodd o fewn cyfnod amser tebyg ac mewn rhannau cysylltiedig o'r rhwydwaith.

Cwblhaodd Dŵr Cymru waith eithriadol i wella'r gorchuddion yng nghronfa wasanaeth Penmynydd (De Sir Fôn) ac yn dilyn atgyweiriadau bychain ar bob adran fe gawson nhw'u dychwelyd i gyflenwi ym Mis Mehefin 2008 a Mis Chwefror 2009. Does yna ddim achosion pellach o fethiannau *E.coli* ar y safle hwn a gofnodwyd yn 2007.

Bacteria coliform mewn cronfeydd gwasanaeth

Mae cynnal profion am facteria coliform yn cynnig tawelwch meddwl bod ansawdd y dŵr a gedwir yn y pwyntiau strategol yma yn y system ddsbarthu yn cael ei gynnal yn ddigonol. Mae'r safon genedlaethol yn datgan na ddylai o leiaf 95% o leiafswm o 50 o samplau a gymerir o bob un cronfa wasanaeth trwy gydol blwyddyn yn rhydd o unrhyw facteria coliform. Yn 2008 roedd pob un o'r 539 o gronfeydd gwasanaeth (yn cynnwys tyrrau dŵr) Cymru yn cwrdd â'r safon.

Ym Mis Awst, darganfu Dŵr Cymru goliform mewn sampl a gymerwyd o gronfa wasanaeth Hengaer, i'r gogledd ddwyrain o Aberystwyth. Datgelodd archwiliad allanol o'r gronfa bod dau orchudd falf mynediad a allai ganiatau i ddŵr lifo i mewn, yn ogystal â bod y tap sampl wedi ei amgylchynu â phlanhigion wedi gordyfu. Ers hynny mae'r cwmni wedi selio'r gorchuddion ac wedi delio â'r llystyfiant. Mae'r achos hwn yn pwysleisio pwysigrwydd bod y rhai sy'n samplu'n cadw'n wylidwrus ac yn rhoi gwybod am broblemau gweladwy ar y safle fel y gellir cymryd camau adferol.

Darganfu Dŵr Cymru goliformau ym Mis Mai mewn sampl a gymerwyd o gronfa wasanaeth Maerdy, ger Colwyn. Disgwylir i'r gronfa hon gael ei gadel yn segur oherwydd ei hoed a'i chynllun erbyn diwedd Mis Rhagfyr 2009.

Cafodd coliformau eu canfod yng nghronfa wasanaeth Melin Y Coed ger Llanrwst, ym Mis Medi. Mae'r safle wedi ei lleoli ar ben draw system ddsbarthu faith ac mae'n profi trosiant isel o ddŵr. Bydd lefel triniaeth osôn gwaith Bryn Cowlyd sy'n cyflenwi'r gronfa yn cael ei gynyddu yn 2009 ac mae'r cwmni'n disgwyl hyn i wella ansawdd dŵr trwy gynnal gwell ar y clorin gweddilliol trwy'r system gyflenwi.

Mae'r Arolygiaeth wedi nodi bod bacteria coliform wedi ei ddarganfod mewn 23 o samplau ddaeth o gronfeydd gwasanaeth yng Nghymru yn ystod y flwyddyn (4 DVW, 16 DWR, 3 SVT) a bydd y wybodaeth yma'n hysbysu gwaith yr Arolygiaeth yn eu rhaglen archwiliad technegol yn seiliedig ar risg.

E.coli ac Enterococci mewn tapiau defnyddwyr

Profwyd cyfanswm o 7,918 o dapiau defnyddwyr yn 2008 am *E.coli* ac roedd dau yn bositif (2 DWR). Doedd yna ddim arwydd, o'r wybodaeth a gasglwyd gan y cwmni dŵr, o unrhyw achos o lygredd ysgarthol yn effeithio ar adeiladau eraill yn y parthau hyn.

Roedd sampl a gymerwyd gan Dŵr Cymru o dap defnyddiwr ym mharth y Fflint/Cei Cona ym Mis Gorffennaf yn cynnwys *E.coli*. Roedd yna fethiant unigol tebyg ym Mis Gorffennaf o dap defnyddiwr ym mharth Llandudno/Colwyn. Profodd pob sampl dilynol a gymerwyd o'r ddau adeilad yma a'r cronfeydd gwasanaeth i fyny'r afon yn foddhaol. Gwnaeth y cwmni'n siŵr bod y gweithfeydd sy'n cyflenwi'r parthau yma'n gweithio fel ar y pryd.

Fel *E.coli* mae presenoldeb Enterococci'n arwydd o lygredd ysgarthol ac ni ddylid dod o hyd i'r naill facteriwm na'r llall mewn unrhyw sampl. Yn

2008 rhoddodd pob un o'r 669 o brofion am Enterococci mewn tapiau defnyddwyr ganlyniadau boddhaol.

Ansawdd cemegol

Mae'r Rheoliadau dŵr yfed yn nodi'r anghenion profi isaf ar gyfer pob un o'r paramedrau cemegol a ffisegol. Mae crynodeb llawn o'r profi gan bob cwmni yn cynnwys y canlyniadau ar gyfer paramedrau'r dangosydd ar gael ar wefan y ADY ac ar y gryno-ddisg sy'n cyd-fynd â'r adroddiad hwn.

Mae'r testun canlynol a Thabl 6 yn dangos y canlyniadau ar gyfer y paramedrau hynny lle bu yna fethiant i gwrdd â safon Ewropeaidd neu Genedlaethol (safonau ansawdd mandadol) ac unrhyw baramedr arall o ddiddordeb. Yn ogystal â hyn, ar gais yr awdurdodau lleol, cynhwysir ganlyniadau'r profion am fflworid, haearn, plwm, manganês, nitrad, nitraid a phlaladdwyr.

Tabl 6: Paramedrau cemegol a ffisegol

Y nifer o brofion a wnaed a'r nifer o brofion nad oedd yn cwrdd â'r safon

Paramedr	Safon gyfredol neu gynodiad a nodir	Cyfanswm nifer y profion	Nifer y profion nad oedd yn cyrraedd y safon	Gwybodaeth ychwanegol
Paramedrau esthetig				
– lliw	20mg/l Pt/ graddfa Co	1,583	0	
– arogl	dim newid annormal	1,782	13	DWR (13)
– blas		1,639	1	DWR (1)
Alwminiwm	200µg/l	1,887	4	DWR (4)
Benzo(a)pyrene	0.01µg/l	676	1	DWR (1)
Fflŵroid	1.5mg/l	639	0	
Haearn	200µg/l	2,407	10	DVW (2), DWR (8)
Plwm (safon gyfredol)	25µg/l	670	0	
Plwm (safon y dyfodol)	10µg/l	670	9	DWR (9)
Manganis	50µg/l	1,828	3	DVW (2), DWR (1)
Nitrad	50mg/l	921	0	
Nitraid	0.5mg/l	919	1	DVW (1)
Plaladdwyr – Cyfanswm	0.5µg/l	628	0	
Plaladdwyr – Unigol (gweler nodyn 3)	0.1µg/l	31,433	0	
pH (ïon Hydrogen)	6.5 – 9.5	2,128	5	DVW (1), DWR (4)
Hydrocarbonau aromatig polysyclig (PAH)	0.1µg/l	675	1	DWR (1)
Nodiadau:				
1. Am grynodeb o fanylion o'r holl brofion a wnaed gan bob un o'r cwmnïau dŵr gweler gwefan yr ADY neu'r gryno-ddisg sy'n cyd-fynd â'r adroddiad hwn.				
2. Er mwyn cymhariaeth, un rhan mewn miliwn yw 1mg/l, un rhan mewn mil miliwn yw 1µg/l.				
3. Cynhaliwyd 3,145 prawf pellach am aldrin, dieldrin, heptachlor, heptachlor epoxide, a llwyddodd pob un i gyrraedd y safon berthnasol.				

Paramedrau esthetig

Mae defnyddwyr yn disgwyl i'w dŵr yfed fod yn glir ac yn loyw ei ymddangosiad ac yn glir o unrhyw flas neu arogl canfyddadwy. Mewn cydnabyddiaeth o hyn mae'r rheoliadau'n dynodi safonau cenedlaethol ar gyfer lliw, arogl a blas. O ddechrau'r flwyddyn eleni mae gofyn i gwmnïau roi gwybod am bob canfyddiad positif o flas ac arogl oherwydd

bod y safon genedlaethol wedi cael ei safoni â Chyfarwyddiaeth Dŵr Yfed yr Undeb Ewropeaidd ers 22 Rhagfyr 2007. Cyn hyn roedd cwmnïau'n rhoi gwybod am samplau lle canfuwyd blas neu arogl ar lefel o dri gwanediad neu gryfach.

Yn 2008 canfuwyd blas ac arogl positif mewn cyfanswm o 14 o samplau o dapiau defnyddwyr yng Nghymru. Cyrhaeddwyd y safon ar gyfer lliw ym mhob un o'r 1,583 o samplau.

Mae darganfyddiadau positif o flas ac arogl yn cael eu crynhoi isod mewn perthynas â'u natur a'u hachos fel a bennir gan yr archwiliadau gynhaliwyd gan gwmnïau. O'r wybodaeth yma gellir gweld bod nifer wedi eu cyfyngu i bibau neu ffitiadau mewn adeilad unigol. Mewn achosion eraill roedd yna broblem gyda'r modd roedd y cwmni dŵr wedi dilyn y dull dadansoddol. Mae'r Arolygiaeth wedi rhoi canllawiau i gwmnïau i rwystro'r problemau yma rhag codi yn y blynyddoedd i ddod.

- Priddlyd/Llwydaidd: 2 (DWR): mae'r disgrifyddion yma'n berthnasol i sefyllfaoedd lle mae sylweddau diniwed ond annymunol yn cael eu cynhyrchu gan dwf algâu mewn cronfeydd cadw dŵr craidd. Mae gan Dŵr Cymru raglen waith sy'n gyfreithiol rhwym i gywiro'r broblem hon yng ngweithiau trin dŵr Talybont a Court Farm sy'n cyflenwi'r ddau barth (Casnewydd a Chas-gwent/Cil-y-coed) lle cafwyd y methiannau yn 2008. Mae'r gwaith yn cynnwys gosod gwaith ceulo yng ngwaith Talybont (i'w gwblhau erbyn Rhagfyr 2009), a gosod hidlyddion GAC yng ngwaith Court Farm, i'w gwblhau erbyn Mawrth 2010.
- Sylffwr : 9 (DWR): mae'r disgrifydd yma'n berthnasol i broblem ddadansoddol. Mae'r Arolygiaeth wedi cyflwyno canllaw i gwmnïau ac fe fydd cnewyllyn perthnasol o'r Pwyllgor Dadansoddwyr Sefydlog yn delio gyda'r mater.
- Toddydd: (3 DWR): ni wnaeth y cwmni gynnal archwiliad manwl i achos y canlyniadau anfoddfaol hyn (2 arogl, 1 blas). Yn hytrach roedd Dŵr Cymru'n dibynnu ar absenoldeb cwynion gan ddefnyddwyr o'r parth a samplai dilynol boddhaol. Dyw'r Arolygiaeth ddim yn fodlon bod y cwmni wedi gweithredu i amddiffyn defnyddwyr trwy ddileu unrhyw ffynhonnell gyfyngedig o lygriad gyda toddyddion neu i wirio nad oes unrhyw dramgwyddo ar Reoliadau Cyflenwad Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999 yn achos y pibau a'r ffitiadau yn yr adeiladau.

Alwminiwm

Gall alwminiwm ymddangos yn naturiol mewn rhai ffynonellau dŵr yfed. Hefyd gall cemegolion ac iddynt sail alwminiwm gael eu defnyddio i hwyluso'r broses hidlo mewn gweithfeydd trin dŵr wyneb.

Yn 2008 cafodd cyfanswm o 1,887 o samplau eu profi am alwminiwm yng Nghymru. Llwyddodd Albion Water, Dee Valley Water a Severn Trent Water gyrraedd cydymffurfiaeth o 100% gyda'r safon alwminiwm. Dim ond pedwar prawf oedd yn uwch na'r safon. (4 DWR).

Roedd dau sampl o dapiau defnyddwyr ym mharth Dinbych ym Mis Ionawr a Chwefror wedi eu cysylltu'n uniongyrchol â digwyddiad a gofnodwyd oedd yn ymwneud ag ansawdd dŵr yng ngwaith Alwen a redir gan Dŵr Cymru lle collwyd rheolaeth o ddosio'r ceulydd alwminiwm a methodd y cwmni â nodi a chywiro'r broblem mewn dull amserol (gweler *Atodiad 3*).

Roedd yna ddau achos unigol o fethu â chyrraedd y safon alwminiwm ym Mis Ionawr a Mis Awst, un ym mharth Treffynnon/Yr Wyddgrug a'r llall ym mharth Bro Morgannwg/Cymoedd Rhondda. Doedd yna ddim problemau cysylltiedig â'r gwaith trin dŵr a dim gwaith wedi ei gynllunio ar gyfer dosbarthu ac felly ystyriwyd bod y ddau achos oherwydd aflonyddu cyfyngedig ar y dyddodion yn y prif gyflenwad y deliwyd â nhw gan Dŵr Cymru trwy fflysio a samlo eilwaith. Hefyd methodd y sampl a gymerwyd ym mharth Treffynnon/Yr Wyddgrug y safon haearn; roedd y cwmni'n priodoli hyn i ffurfedd y rhwydwaith (*cul-de-sac*) sy'n annog cronni dyddodion.

Fflworid


Gall olion fflworid ymddangos yn naturiol mewn nifer o ffynonellau dŵr, yn enwedig dŵr daear. Gall defnyddwyr gael gwybodaeth benodol ynglŷn â lefel y fflworid yng nghyflenwad dŵr eu cartref neu eu gweithle oddi wrth eu cwmni dŵr.

Ni cheir gwared ar fflworid trwy brosesau confensiynol o drin dŵr. Mae rhai cwmnïau'n fflworideiddio cyflenwadau dŵr ar gais yr awdurdod iechyd lleol fel ymgais i rwystro dannedd rhag pydru. Does yna ddim cynlluniau fflworideiddio yng Nghymru. Yn 2008, llwyddodd pob un o'r 639 prawf am fflworid a gynhaliwyd ar hyd a lled Cymru gyrraedd y safon rheoliadol (1.5mg/l). Am fwy o wybodaeth am fflworideiddio ewch i wefan yr ADY <http://www.dwi.gov.uk>.

Haearn

Gall haearn fod yn bresennol yn naturiol mewn dŵr crai, gall cyfansoddion haearn gael eu hychwanegu fel rhan o'r gwaith trin dŵr neu gellir ei ollwng o ganlyniad i erydiad yn y prif bibelli dŵr haearn. Mae triniaeth dŵr effeithiol yn rhwystro'r problemau hyn rhag codi yn y ffynhonnell. Y dyddiau yma mae'r rhan fwyaf o samplau sy'n methu â chyrraedd y safon ar gyfer haearn yn dod o lefydd lle mae'r rhwydwaith dosbarthu'n cynnwys canran uchel o hen bibau haearn bwrw. Pan fo'r gwaddodion yma'n cael eu disodli gan broblem weithredol (megis prif beipen yn byrstio) gall y dŵr droi'n oren-frown. Gall lefelau uchel o haearn hefyd fod yn annymunol i ddefnyddwyr oherwydd gall y dŵr ymddangos yn gymylog, gall flasau'n egr neu chwerw ac mae'r gwaddodion yma'n hyll ac mae'n bosibl iddyn nhw staenio ffitiadau dŵr. Mae aflwiad yn y cyflenwadau dŵr yn aml yn annog defnyddwyr i gysylltu â'u cwmni dŵr. Mae'r raddfa o gysylltiadau ar gyfer pob parth cyflenwi'n cael ei fapio isod yn Ffigur 7.

Ffigwr 7: Graddfa cyswilt defnyddwyr am bob 1,000 o'r boblogaeth ar gyfer dŵr du, brown, oren



Mae'r rhan fwyaf o gwmnïau dŵr ag ymrwymiadau cyfreithiol rhwym i wella cyflwr eu systemau dosbarthu i bwrpasau ansawdd dŵr; mae'r Arolygiaeth yn monitro cynnydd y rhaglenni yma o adnewyddu prif gyflenwadau. Mae Dee Valley Water a Severn Trent Water eisoes wedi cwblhau eu rhaglenni strategol. Mae gan Dŵr Cymru raglen barhaus ac yn ystod 2008 daeth ar draws materion amrywiol yn ymwneud â mynediad i briffyrdd a all achosi oedi wrth gyflawni gweddill y gwaith sydd i'w gwblhau erbyn Medi 2009.

Tabl 8: Cynnydd gyda rhaglenni gwelliant ar systemau dosbarthu

Cwmni	Hyd y prif bibellau a adnewyddwyd yn 2008	Hyd y prif bibellau sydd ar ôl i'w hadnewyddu	Adnewyddu wedi ei gwblhau	Dyddiad Cwblhau arfaethedig
Albion Water	Dim	Dim	Ddim yn berthnasol	Ddim yn Berthnasol
Dee Valley Water	Dim	Dim	Medi 2004	Ddim yn Berthnasol
Dŵr Cymru Welsh Water	371.1km	130.0km	Ddim yn berthnasol	Medi 2009
Severn Trent Water	Dim	Dim	Chwef 2005	Ddim yn Berthnasol
Y Rhanbarth yn gyffredinol	371.1km	130.0km		
Noder : Mae hyd y pibellau a nodir yn berthnasol i'r parthau hynny sy'n gyfan gwbl neu bron i gyd yng Nghymru.				

Yn 2008, roedd yna 10 methiant haearn, dirywiad o'r wyth methiant yn 2007. Nododd cwmni Dee Valley Water ddau fethiant haearn, ac ystyriwyd bod y rhain yn ddigwyddiadau unigol. Digwyddodd un mewn tap defnyddiwr ym Mis Ebrill ym mharth Rhos, methiant roedd y cwmni'n dweud iddo gael ei achosi gan gyflwr gwael y beipen wasanaeth oedd yn cyflenwi rhai adeiladau. Cafodd y trigolion gyngor ar ailosod y beipen hon a chafodd yr awdurdod lleol eu copïo i mewn ar y cyngor hwn. Yn yr achos arall ym Mis Mai ym mharth Overton gorfodwyd Dee Valley Water i gyflymu cynlluniau i roi'r gorau i'r cyflenwad lleol, a chwblhawyd hyn ym Mis Gorffennaf.

Yn 2008, cofnododd Dŵr Cymru wyth methiant haearn, ond ystyriwyd bod y rhan fwyaf o'r rhain yn achosion ynysig wedi eu hachosi gan darfiad cyfyngedig yn y prif gyflenwad ac fe ddeliwyd â nhw trwy fflysiu'r prif gyflenwad ar y pryd ac ni ystyriwyd eu bod nhw'n arwydd o broblem ehangach. Roedd sampl o dap defnyddiwr a fethodd y safon haearn yn ardal Treffynnon/yr Wyddgrug yn gysylltiedig â methiant yn y safon ar gyfer alwminiwm. Priodolodd y cwmni y methiannau hyn i ffurfwedd y rhwydwaith (*cul-de-sac*) sy'n annog cronni dyddodion.

Mae'r Arolygiaeth yn disgwyl i gwmnïau fod yn defnyddio gwybodaeth am fethiannau ynysig a chwynion defnyddwyr i hysbysu eu Strategaethau Gweithredu Dosbarthu a Cynnal a Chadw.


Plwm

Y bibell sy'n cysylltu eiddo rhywun â phrif bibell y cwmni dŵr, ynghyd â gwaith plymio mewnol, yw'r ffynhonnell fwyaf cyffredin o blwm mewn dŵr

yfed. Mae adeiladau a godwyd neu a adnewyddwyd ers 1970 yn annhebygol o fod â phibellau plwm, a chafodd defnyddio sodr plwm mewn gosodiadau dŵr yfed copr ei wahardd yn y 1970au cynnar. Yr unig ffynhonnell gydnabyddedig arall o blwm mewn dŵr yfed mewn rhai adeiladau yw ffitiadau wedi eu gwneud o bres. Mae faint o blwm a drosglwyddir o'r bibell i'r dŵr yn dibynnu ar sawl ffactor; tymheredd, asidedd (pH), pa mor galed yw'r dŵr, hyd y bibell a pha mor hir y saif y dŵr yn y bibell cyn iddo gael ei ddefnyddio.

Mae'r data monitro a gasglwyd gan gwmnïau yn ystod 2008 wedi cael ei ychwanegu gan yr Arolygiaeth i'r hyn a gasglwyd yn y blynyddoedd blaenorol er mwyn darparu darlun wedi ei ddiweddarau o gynnydd yng Nghymru ac ar gyfer y diwydiant, i gwrdd â safon y dyfodol ar gyfer plwm o $10\mu\text{g/l}$ erbyn diwedd 2013. Mae Ffigwr 9 yn dangos bod Cymru wedi cyflawni cydymffurfiaeth o 100% gyda'r safon plwm cyfredol yn 2008 ac mae cynnydd tuag at cwrdd â'r safon yn y dyfodol yn dal yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y diwydiant.

Ffigwr 9: Canran y profion sy'n cyrraedd y safon gyfredol a safon y dyfodol am blwm rhwng 2001 a 2008



Mae cwmnïau dŵr yn hysbysu'r defnyddiwr a'r awdurdod lleol perthnasol pryd bynnag y digwydd methiant yn y safon plwm. Yn 2008 doedd yna ddim methiant yn y safon plwm cyfredol yng Nghymru. Ond allan o gyfanswm o 670 o samplau roedd yna bump (DWR) oedd yn dangos gwerth plwm uwch na'r safon ar gyfer y dyfodol o $10\mu\text{g/l}$. Mae'r Arolygiaeth wedi cyhoeddi canllaw i gwmnïau yn eu hatgoffa o'r angen i roi gwybod i awdurdodau lleol o ganlyniadau o'r fath ac i roi cyngor i berchnogion tai ynglŷn â'r hyn sydd angen iddyn nhw'u cymryd er mwyn lleihau effaith plwm.

Yn ystod 2008 parhaodd y cwmni i weithio'n agos gyda thrigolion mewn datblygiad tai yn Sir Fôn lle roedd plymwyr oedd yn gweithio i ddatblygwyr tai wedi defnyddio sodor plwm oedd wedi cael ei wahardd rhag cael ei ddefnyddio ar waith peipiau dŵr yfed yn gynnar yn y 1970au. Ers hynny mae'r datblygwr wedi mynd yn fethdalwr. Mae'r cwmni wedi gweithio gyda'r perchnogion i sicrhau bod y gwaith adferol priodol yn cael ei wneud ac mae'r cwmni wedi datrys problemau 31 o'r 34 eiddo a effeithiwyd. O'r tri arall, mae dau wedi gwrthod mynediad i'r gweithwyr gael cwblhau'r gwaith angenrheidiol, ac mae dyddiad wedi ei bennu ar gyfer y llall. O ganlyniad i hyn, mae Dŵr Cymru wedi cyflwyno polisi o brofi 5% o eiddo domestig newydd a phob datblygiad diwydiannol/masnachol am sodor plwm.

Yn ychwanegol at hyn yn ystod 2008 mae cwmnïau yng Nghymru wedi ymateb i 152 cais gan ddefnyddwyr i ymchwilio i'r lefel o blwm mewn dŵr yfed yn eu heiddo.

Manganîs

Mae manganîs yn bodoli'n naturiol mewn nifer o ffynonellau dŵr. Gellir cael gwared ohono o ddŵr craidd trwy drawsnewid y ffurf doddadwy i ddyddodiad annhoddadwy (ocsidiad). Gall triniaeth fod yn syml i'w gyflawni (awyriad) ond mae angen prosesau mwy cymhleth ar gyfer rhai dyfroedd. Os nad oes triniaeth effeithiol yn ei le yna gall dyddodion du gasglu yn y pibau dosbarthu. Wrth gael eu hysgytio gall dyddodion fel hyn droi'r dŵr yn ddu. Mae hyd yn oed olion bychain o fanganîs yn annymunol i ddefnyddwyr. Mae cwynion nodweddiadol yn sôn am staenio dillad yn y golch neu newid lliw llysiâu wrth eu golchi neu eu coginio. Pwrpas y safon ar gyfer manganîs yw lleihau'r problemau yma. Yn 2008, allan o 1,828 o brofion dim ond tri methiant a gofnodwyd yn y safon manganîs (2 DVW, 1 DWR).

Cofnododd Dee Valley Water ddau fethiant ym mharth Maelor yn Ystod Mis Awst a Medi yn ystod 2008. Mae'r cwmni wedi cadarnhau'r angen am drin dŵr ychwanegol yng ngwaith Llwyn Onn er mwyn cael gwared o manganîs yn y dŵr craidd. Mae rhaglen waith cyfreithiol rhwym i gyflawni'r gwelliannau hyn wedi cael eu cynnwys yng nghynllun busnes y cwmni i'w cwblhau yn ystod y cyfnod buddsoddiad asedau nesaf sy'n dod i ben yn 2014. digwyddodd yr unig fethiant ym mharth Maerdy/Porth a weithredir gan Dŵr Cymru yn ystod Mis Gorffennaf pan oedd y cwmni'n gwneud gwaith adnewyddu ar y prif gyflenwadau dŵr yn yr ardal.

Nitrad a nitraid

Mae nitrad yn bodoli'n naturiol ym mhob math o ffynonellau dŵr oherwydd bod mater llysiuol yn pydru yn y pridd. Mae gwrteithwyr nitrogenaidd sy'n cael eu defnyddio ar dir ffermio â'r yn ffynhonnell sylweddol o nitrad mewn dŵr daear. Mae glaw yn golchi nitrad o'r pridd i mewn i lynnoedd, afonydd a nentydd. Gall lefelau nitrad gael eu gostwng trwy drin y dŵr neu trwy gyfuno'r dŵr hwnnw â ffynhonnell arall o ddŵr sydd â llai o nitrad ynddo. Yn 2008, roedd pob un o'r 921 prawf ar gyfer nitrad yng Nghymru yn cwrdd â'r safon (50mg/l).

Gall nitraid gael ei ffurfio pan fo cloramin yn cael ei ddefnyddio fel diheintydd gweddilliol i gynnal yr ansawdd microbiolegol oddi fewn i'r rhwydwaith dosbarthu.

Rheolir ffurfiant nitrad trwy optimeiddio gofalus oddi fewn i'r broses ddiheintio. Mae nifer o gyflenwadau yng Nghymru wedi eu cloramineiddio. Gall nitraid hefyd ffurfio mewn samplau dŵr, ar ôl iddyn nhw gael eu casglu a chyn iddyn nhw gael eu dadansoddi, yn enwedig os na chaiff y sampl ei gadw'n oer. Yn 2008, allan o 919 o brofion a gynhaliwyd ar draws Cymru ar gyfer nitraid roedd yna un methiant mewn sampl o dap defnyddiwr (1 DVW) ym mharth Saltney ym Mis Gorffennaf. Nododd archwiliad Dee Valley Water broblemau gyda'r broses ddiheintio yng ngwaith Boughton sy'n cyflenwi'r parth yma. Optimeiddiodd y cwmni gymhareb dosio cemegolion yn y gwaith a does dim rhagor o fethiannau wedi eu cofnodi ers hynny.

Plaladdwyr a chynnyrch cysylltiedig

Mae'r grŵp yma o sylweddau a elwir yn generig yn blaladdwyr, yn cynnwys nifer o gemegau organig yn amrywio o chwynladdwyr, pryfleiddiaid a ffynladdwyr. Gall ffynonellau dŵr gynnwys olion o waddolion plaladdwyr o ganlyniad i ddefnydd amaethyddol (difa pla ar gnydau) a defnydd nad yw'n amaethyddol (chwynladdwyr i reoli chwyn ar ochr y ffordd fawr ac ati). Mae'n ofynnol i gwmnïau dŵr asesu'r risg o ddŵr yfed o ganlyniad i'r plaladdwyr a allai fod yn bresennol yn eu dalgylch ac yna profi ar gyfer y rhai a allai fod yn bresennol. Mae cwmnïau wedi dogfennu peryglon potensial a rhai gwir plaladdwyr trwy eu hasesiadau risg Rheoliad 27 sy'n cael eu hysbysu gan fonitro dŵr crai a nodi'r mesurau rheoli sydd yn eu lle. Pan fo plaladdwyr yn cael eu canfod i ddechrau bydd cwmnïau dŵr yn gwella'u monitro o ddŵr craidd a hysbysu Asiantaeth yr Amgylchedd i hyrwyddo gweithredu addas i ddiogelu ansawdd dŵr yfed.

Yn 2008, roedd pob prawf yng Nghymru yn cwrdd a'r safon ar gyfer plaladdwyr llwyr. Felly hefyd roedd yna gydymffurfiaeth 100% (3,145 prawf) am y pedwar plaladdwr gyda safon o 0.03µg/l. Hefyd roedd y 31,433 o brofion ar gyfer plaladdwyr unigol yn cwrdd â'r safon o 0.1µg/l.

Gorffennodd Dee Valley Water waith ym Mis Mai 2008 yng ngwaith Boughton, ger Caer ac mae'r holl ddŵr sy'n gadael y gwaith nawr yn cael ei drin gan garbon gronynnog actifedig (GAC). Mae'r gwelliant hwn yn delio â risg plaladdwr sy'n hysbys, er enghraifft cafwyd adroddiadau o isoprotiwron mewn sampl o ddŵr wedi ei drin ym Mis Tachwedd 2007. Ym Mis Mawrth 2008 cwblhaodd Dŵr Cymru raglen cyfreithiol rhwym i osod triniaeth GAC i dynnu'r plaladdwyr o'r dŵr yn ffynhonnell dŵr craidd gwaith Bretton, ger Caer. Bydd y ddau gynllun yma o fudd i bron 150,000 o ddefnyddwyr yng Nghymru.

pH (Ïon Hydrogen)

Mesur o asidedd dŵr yw pH. Lle caiff dŵr ei gyflenwi o ardaloedd tir uchel, mae'r dŵr yn codi asidau haearn a hwmig o'r pridd mawnog ac felly'n creu dŵr ychydig yn asidig gyda pH isel, a ddisgrifir yn aml fel 'dŵr meddal'. Mae dŵr o'r fath â photensial uchel i rydu pibau haearn ac i hidlo deunydd o brif bibellau sydd wedi eu leinio â sement. Gall asidedd gael ei effeithio hefyd pan gaiff dŵr ei feddalu mewn modd artiffisial o fewn eiddo'r defnyddwyr.

Yng Nghymru, o gyfanswm o 2,128 prawf, methwyd â chyrraedd y safon ar bump achlysur yn 2008 (1 DVW, 4 DWR).

Cafwyd un methiant gan Dee Valley Water ym mharth Rhos yn ystod mis Chwefror o ganlyniad i broblemau gyda dosio cemegol yn y gwaith sy'n cyflenwi'r rhanbarth oherwydd y tywydd oer. Er na welwyd effaith hyn yn yr ardal ehangach fel y byddai rhywun wedi disgwyl os mai dyma'r achos, mae pob sampl arall a gymerwyd yn yr ardal wedi bod yn foddhaol.

Ym mis Mawrth, nododd Dŵr Cymru lefelau pH isel mewn sampl a gymerwyd ym mharth Treffynnon/Yr Wyddgrug. Ni ddaethpwyd o hyd i'r achos, ond wedi i'r cwmni lifolchi'r prif bibell roedd yr holl samplau eraill yn foddhaol ac felly efallai mai trosiant isel o ddŵr yn y bibell oedd yn gyfrifol.

Ni ddaethpwyd o hyd i'r rheswm am fethiant ym mharth Llyswen ym mis Ebrill chwaith. Fodd bynnag, mae'r gwaith sy'n cyflenwi'r rhanbarth yn cau i lawr ar lefelau uwch na'r rhai y darganfuwyd ac felly mae'n debygol bod y pH isel o ganlyniad i faterion dosbarthu lleol.

Ni ddaeth Dŵr Cymru o hyd i'r rheswm tu ôl i fethiant ym mharth Preseli ym mis Mai, ac mae pob sampl ers hynny wedi bod yn foddhaol.

Ym mis Hydref, methodd sampl a gymerwyd o eiddo a gyflenwir gan brif bibell sydd â phroblemau pH ym mharth Llan y Mawddwy â chyrraedd y safon. Mae llifiant isel yn galluogi dŵr i aros mewn cyswllt â deunydd y brif bibell gan achosi pH uchel. Llwyddodd llifolchi i adfer y sefyllfa y tro hwn, ond mae'r cwmni wedi nodi bod angen i'r brif bibell gael ei newid fel rhan o'u cynllun adfer. Bydd llifolchi rheolaidd yn cymryd lle tan i'r gwaith yma gael ei gwblhau.

Hydrocarbonau aromatig amgylcheddol

Mae hydrocarbonau aromatig amgylcheddol (PAH) yn bresennol mewn col-tar. Cyn 1970 roedd col-tar yn cael ei ddefnyddio'n helaeth i leinio pibellau haearn. Felly gall PAH sy'n cynnwys benzo(a)pyrene fod yn bresennol mewn dŵr o ganlyniad i ddiraddiad y leininau yma.

Yn 2008, allan o 675 o brofion a gasglwyd ar draws Cymru, dim ond un prawf (1 DWR) a fethodd y safon ar gyfer PAH (0.1µg/l) ac fe fethodd yr un sampl hefyd y safon benzo(a)pyrene (1 DWR). Ni fedrwyd cysylltu'r methiant mewn tap defnyddiwr ym mharth Merthyr/Abercynon ym Mis Mai 2008 gan y cwmni i bresenoldeb prif gyflenwad â leinin col-tar yn yr ardal. Cynhaliodd Dŵr Cymru archwiliad o ffitiadau dŵr yn yr adeiladau ac ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw anghysondebau. Roedd pob sampl ar ôl hyn wedi rhoi canlyniadau boddhaol.

Dirnadaeth defnyddwyr o ansawdd dŵr yfed


Pan fydd gan ddefnyddwyr gwestiwn neu bryder ynglŷn ag ansawdd eu dŵr yfed, eu cwmni dŵr yw'r cyswllt cyntaf. Mae pob cwmni'n cofnodi'r ymholiadau hyn gan ddefnyddio diffiniadau a gytunwyd gyda'r Arolygiaeth. Mae Tabl 10 yn dangos y newid yn y nifer o gysylltau defnyddwyr ar gyfer y tri prif gategori (ymddangosiad, blas ac arogl, a salwch) ers 2006.

Tabl 10: Cyfanswm graddfeydd cyswllt ar gyfer ymddangosiad, blas ac arogl, a salwch

Cwmni	Cysylltau fesul 1,000 o'r boblogaeth		
	2006	2007	2008
Dee Valley Water	2	2	3
Dŵr Cymru Welsh Water	6	5	5
Severn Trent Water	3	2	4
Cyfanswm Cymru	5	5	4

Mae Albion Water yn cyflenwi cwsmer unigol (ffatri gydag oddeutu 260 o weithwyr). Ni nodwyd unrhyw gysylltiadau yn 2006 a 2007 ond mae chwech wedi eu derbyn am flas ac arogl clorîn yn 2008 o bosib oherwydd comisiynnu GAC yn y gweithfeydd cyflenwi. Dyw ffigurau Dee Valley Water ddim yn cynnwys defnyddwyr sy'n byw yn Lloegr
Dyw ffigurau Dŵr Cymru ddim yn cynnwys defnyddwyr sy'n byw yn Lloegr
Mae ffigurau Severn Trent Water ar gyfer cwsmeriaid sy'n byw yng Nghymru

Yng Nghymru, y pryderon gafodd eu nodi amlaf yn ystod 2008 oedd dŵr afliwiadig – brown, du, oren (64%), a lliw gwyn o ganlyniad i'r aer (15%), blasau ac arogleuon heb eu clorineiddio (9%) a blas neu arogl clorinedig (5%). Gyda'i gilydd roedd y pum categori yma'n cyfrif am 93% o holl gysylltau defnyddwyr ynglŷn ag ansawdd dŵr yfed yn 2008 ond dros y tair blynedd ddiwethaf mae yna ostyngiad cyffredinol (22%) mewn pryderon ynglŷn ag ansawdd dŵr yfed yng Nghymru o bron i 17,000 yn 2006 i dros 13,000 yn 2008. Mae gwybodaeth bellach am bryderon cyfredol defnyddwyr yng Nghymru'n cael eu dangos isod.

Ffigwr 11: Pryderon defnyddwyr yng Nghymru yn 2008

Dŵr afliwiedig

Mae cysylltau oddi wrth ddefnyddwyr ynglŷn â dŵr afliwiedig wedi gostwng yn sylweddol ar draws Lloegr a Chymru i gyd-fynd yn fras gyda chyflwyniad cwmnïau dŵr o'u rhaglenni adnewyddu cyflenwadau dan Adran 19 a chyflwyniad cyfocrog o'r Strategaethau Dosbarthu Gweithredu a Chynnal a Chadw (DOMS). Yng Nghymru dros y cyfnod o dair blynedd yn dechrau yn 2006 mae'r gwelliant yn ansawdd y dŵr wedi cael ei wirio gan leihad cofnodedig o 24% mewn cwynion am 'ddŵr brwnt' gan ddefnyddwyr Cymreig. Fel a ddangosir yn Tabl 12 defnyddwyr Dŵr Cymru sydd wedi profi'r budd mwyaf hyd yma. Dyw'r sefyllfa ddim mor ffafriol i gwsmeriaid Dee Valley Water lle mae adroddiadau o ddŵr brwnt bron â dyblu mewn tair blynedd (336 o'i gymharu â 191 yn 2006) yn bennaf oherwydd cynnydd mewn tri pharth, . Mae'n ymddangos bod hyn yn berthnasol i dair parth yn unig (City, Southsea a Wrecsam). Mae Dee Valley Water yn cynllunio gwelliannau i weithfeydd trin gweithfeydd Llwyn Onn a Legacy er mwyn gwella'r sefyllfa, fodd bynnag mae'r Arolygiaeth yn disgwyl i'r cwmni baratoi camau adfer tymor byr o fewn eu Strategaethau Dosbarthu Gweithredu a Chynnal a Chadw (DOMS) i leihau'r effaith ar gwsmeriaid yn y cyfamser.

Tabl 12: Adroddiadau defnyddwyr am ddŵr brown, du neu oren 2006-08


Cwmni	Y nifer o adroddiadau dderbyniwyd gan ddefnyddwyr am ddŵr brown, du neu oren		
	2006	2007	2008
Albion Water	0	0	0
Dee Valley Water	191	252	336
Dŵr Cymru	11,001	8,845	8,120
Severn Trent Water	80	54	89
Cyfanswm	11,272	9,151	8,545
Mae Albion Water yn cyflenwi dŵr i ffatri fawr (tua 260 o weithwyr) Dyw ffigurau Dee Valley Water ddim yn cynnwys defnyddwyr sy'n byw yn Lloegr Dyw ffigurau Dŵr Cymru ddim yn cynnwys defnyddwyr sy'n byw yn Lloegr Mae ffigurau Severn Trent Water ar gyfer cwsmeriaid sy'n byw yng Nghymru			

Blasau ac aroglau clorinedig

Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae'r canran o gysylltau y gellir eu priodoli i flasau ac arogluon clorinedig o fewn y diwydiant wedi codi o 8% i bron 13% o holl bryderon defnyddwyr (o 12,000 i 18,000 o gysylltau). Mae'r rhesymau am y tueddiad yma'n ddeublyg: mae buddsoddiad gan y cwmnïau wedi bod yn taclo achosion o afliwio'n effeithiol felly mae'r nifer o gwynion am ddŵr brwnt yn gostwng wrth i brif gyflenwadau dŵr gael eu hadnewyddu neu eu hadfer a bod ansawdd dŵr yn cael ei wella wrth y ffynhonnell wrth i well system o drin dŵr gan roi

lefel o glorin gweddilliol mwy sefydlog sy'n cael ei gario ymhellach drwy'r rhwydwaith o beipiau. Rhain yw manteision positif buddsoddiad y cwmnïau dŵr ond er hynny mae'n golygu y bydd rhai defnyddwyr yn derbyn dŵr ffres drwy'r tap ag olion clorin ynddo am y tro cyntaf. Mae ffigur 13 yn dangos y tueddiadau i gwmnïau yng Nghymru. Mae'r Arolygiaeth yn disgwyl i gwmnïau ddatblygu strategaethau rheoli clorin gweddilliol effeithiol er mwyn cadw cysylltau defnyddwyr ynglŷn â chlorin i'r lleiaf posibl.

Ffigur 13 : Cysylltau defnyddwyr ynglŷn â blas ac arogl clorin 2006-2008



Pan fo ymateb cwmni'n methu â darparu'r sicrwydd neu welliant angenrheidiol yna gall y defnyddiwr droi at yr Arolygiaeth am gyngor. Fel y gwelir yn Nhabl 14, yn 2008 roedd yna bedwar defnyddiwr yn byw yng Nghymru a gwynodd yn uniongyrchol i'r Arolygiaeth, tebyg mewn nifer i'r tri a dderbyniwyd yn 2007.

Tabl 14: Cysylltau oddi wrth ddefnyddwyr a dderbyniwyd gan yr Arolygiaeth Dŵr Yfed

Categori	Nifer y cysylltau
Edrychiad	3
Blas ac Arogl	0
Achosion o Salwch	0
Pryder am Ansawdd y Dŵr	1
Nifer y cysylltau â ADY oddi wrth ddefnyddwyr fesul cwmni DWR (4)	
Mae'r categorïau fel y'u diffinnir yn y Llythyr Gwybodaeth 1/2006	

Ym Mis Tachwedd cysylltodd cwsmer i Ddŵr Cymru â'r Arolygiaeth oedd yn gweithredu nid yn unig ar ei ran ei hun ond hefyd fel cynrychiolydd grŵp o drigolion yn Y Fenni oedd wedi bod yn derbyn dŵr "brwnt" am gyfnod hir o amser. Wrth archwilio llwyddodd yr Arolygiaeth i sefydlu bod y cwmni dŵr yn gwybod am y broblem oedd yn ymwneud â phrif bibell ddŵr o haearn bwrw. Roedd y cwmni wedi rhoi system fflysio rheolaidd ond roedd cwsmeriaid wedi parhau i brofi dŵr wedi ei afliwio i raddfa fwy neu lai am fisoedd gan achosi i drigolion anfodlon ffurfio grŵp i ddeisebu'r cwmni gan fynnu gweithredu. Cafodd y mater ei ddatrys ar ôl i'r cwmni osod hydrant i hwyluso fflysio ar gyflymder uchel. Mae'r achos hwn yn tynnu sylw at bwysigrwydd y ffaith y dylai cwmnïau asesu'n rhyngweithiol effeithiolrwydd strategaethau cynnal a chadw megis rhaglenni fflysio gan gymryd gofal i roi gwybod i gwsmeriaid a dadansoddi data cyswllt cwsmeriaid i bwrpasau gwirio.

Digwyddiadau yn 2008

Hysbysodd y cwmnïau yng Nghymru yr Arolygiaeth o 54 digwyddiad yn ystod 2008. Clustnododd yr Arolygiaeth 22 o'r rhain fel 'digwyddiadau' yn gofyn am adroddiad cynhwysfawr gan y cwmni ac archwiliad llawn gan yr Arolygiaeth; mae hyn yn cymharu ag 18 yng Nghymru yn 2007.

Tabl 15: Digwyddiadau ansawdd dŵr yng Nghymru yn 2008

Cwmni Dŵr	Nifer yr achosion a gofnodwyd	Y nifer a nodwyd yn ddigwyddiadau
Albion Water	0	0
Dee Valley Water	4	0
Dŵr Cymru Welsh Water	49	21
Severn Trent Water	1	1
Y Rhanbarth yn gyffredinol	54	22

Ceir crynodeb o natur, achos a hyd pob digwyddiad, ynghyd â darganfyddiadau'r Arolygiaeth yn *Atodiad 3*. Roedd y mwyafrif o'r digwyddiadau'n rhai byr ac fe gymrodd y cwmni gamau i gynghori rhydd-ddeiliaid a diogelu defnyddwyr fel roedd hynny'n briodol.

Mae pwyntiau dysgu ehangach gosodd o'r archwiliadau i achosion yng Nghymru yn 2008 yn cael eu dangos yn yr achosion canlynol:

Lefelau uchel o alwminiwm a chymylogrwydd yng ngweithfeydd Llyswen

- Roedd yna dri digwyddiad gwahanol ym Mis Mai, Gorffennaf a Rhagfyr yn gysylltiedig â gwaith Llyswen sy'n cyflenwi tua 10,000 o ddefnyddwyr yn yr ardal ar y ffin rhwng Powys a Swydd Henffordd yn cynnwys pentrefi Gelli Gandryll, Cleirwy, Y Clas ar Wy, Castell Paen, Talgarth a Bronllys. Mae'r gwaith yn un o nifer gaiff eu rhedeg gan Dŵr Cymru sy'n tynnu dŵr o'r Afon Gwy. Yn dilyn glaw trwm newidiodd ansawdd y dŵr craidd yn gyflym yn y cyfnod rhwng 24 a 28 Mai gan achosi colli rheolaeth dros system dosio calch a effeithiodd yn ei dro ar reoli ceulyddion gan achosi lefelau uwch o alwminiwm a chymylogrwydd mewn dŵr wedi ei drin ar 29 Mai. Cafwyd problemau pellach gyda dosio calch ym Mis Gorffennaf a Rhagfyr oherwydd nam ar y gwaith mecanyddol a thrydanol gydag effaith anffafriol ar y dŵr wedi ei drin yn mynd i mewn i'r cyflenwad. Mae gan y cwmni gynlluniau i newid y system dosio calch bresennol ond argymhellodd yr Arolygiaeth yr angen am well cynnal a chadw yn y cyfamser. Nododd yr Arolygiaeth y gallai methiannau yn y system larymau fod wedi bod yn ffactor achosol yn yr ymatebion gweithredol gwael i'r digwyddiadau yma ac argymhellodd arolwg trylwyr o'r strategaeth monitro systemau, yn cynnwys larymau a gosodiadau larymau a gweithdrefnau ansawdd dŵr ar gyfer y safle er mwyn sicrhau bod cefnogaeth briodol ac amserol ar gael.

Cyngor berwi dŵr yn Nhywyn, Gogledd Cymru

- Ym Mis Awst 2008 rhoddwyd cyngor i ferwi dŵr am bedwar diwrnod i tua 4821 o ddefnyddwyr yn ardal Tywyn yng Ngogledd Cymru. Achosodd glaw trwm i lefel y lliw a chymylogrwydd i godi yn y dŵr crai oedd yn mynd i mewn i waith Pen-y-bont Dŵr Cymru a gafodd effaith andwyol ar berfformiad yn y gwaith uwchfioled (UV) a chaewyd y gwaith. Oherwydd yr angen i gynnal cyflenwadau i ddefnyddwyr cafodd y gwaith ei ailgychwyn gyda'r gwaith trin uwchfioled yn cael ei osgoi. Ar ôl hynny adferwyd y gwaith trin UV. Mae gwaith Pen-y-bont yn cael ei nodi fel un sydd â risg o *Cryptosporidium* gyda monitro parhaus yn ei le. Nodwyd lefelau uwch na'r normal o oocyst yn y sampl o ddŵr wedi ei drin oedd yn cynnwys y cyfnod pan oedd y gwaith trin uwchfioled yn cael ei osgoi. Nododd yr Arolygiaeth nad oedd y cwmni wedi rhoi arweiniad i'r staff ynglŷn â sut i ymateb yn y fath amgylchiadau. Mae cyfarwyddiadau wedi eu cyflwyno ers hynny. Roedd yr Arolygiaeth yn feirniadol o'r diffyg cyflwyno diymdroi i'r rheolwyr hŷn cyn y penderfyniad i osgoi triniaeth. Roedd yr Arolygiaeth yn

feirniadol iawn o Dŵr Cymru am aros am ganlyniad y sampl o *Cryptosporidium* cyn galw cyfarfod o dîm rheoli digwyddiadau ac yna cyhoeddi cyngor iechyd cyhoeddus i ddefnyddwyr. Roedd yna wallau yn y rhannu rhybuddion i ferwi dŵr gafodd eu tynnu i sylw'r cwmni gan ddefnyddwyr oedd yn byw mewn dwy stryd yn Nhywyn oedd heb dderbyn taflen.

Darganfod Cryptosporidium yng ngweithfeydd Mynydd Llandegai

- Cafodd Dŵr Cymru broblemau pellach gyda chyngor berwi dŵr yn ddiweddarach ym Mis Awst. Ar yr achlysur yma ceisiodd y cwmni gyngor oddi wrth weithwyr proffesiynol ym maes iechyd lleol ynglŷn â chanlyniadau anarferol o uchel mewn samplau *Cryptosporidium* yng ngwaith Mynydd Llandegai. Oherwydd nad oedd ffynhonnell y *Cryptosporidium* wedi cael ei ganfod penderfynwyd cyhoeddi cyngor i ferwi dŵr i ddefnyddwyr mewn ardal ehangach yn cynnwys y cyflenwad o waith Capel Curig sy'n rhannu cyflenwad dŵr crai cyffredin gyda Mynydd Llandegai. Newidiwyd rhai o'r parthau er mwyn lleihau'r ardal a effeithir gan y cyngor i ferwi dŵr. Dros y dyddiau nesaf daeth yn amlwg mae'n debyg mai ffynhonnell yr oocystau oedd Ffynnon Llugwy, ffynhonnell dŵr craidd oedd yn gyffredin i Mynydd Llandegai a Chapel Curig. Mae'r oocystau bellach wedi eu hadnabod fel rhywogaeth sy'n gysylltiedig â bywyd gwyllt yn y dalgylch. Cafodd gwaith UV ei osod a'i gomisiynu ym Mynydd Llandegai. Roedd cario dŵr mewn tanceri yn cael ei ddefnyddio fel modd o gyflenwi defnyddwyr gwaith Capel Curig nes i'r cyflenwad ddod nôl i normal. Roedd yr Arolygiaeth yn feirniadol iawn o gamgymeriadau wnaed yn y broses o ddsbarthu cyngor i ferwi gyda rhai defnyddwyr yn derbyn taflenni mewn camgymeriad ac eraill ddim yn derbyn taflen pan ddylen nhw gael un. Mae rhaglenni gwaith cyfreithiol rhwym yn cael eu gweithredu we mwyn gwella triniaeth a lleihau'r risg o *Cryptosporidium* yn gysylltiedig â'r cyflenwadau dŵr hyn.

Yn ystod 2008 roedd yna nifer cymharol uchel o achosion lle roedd asesiad yr Arolygiaeth yn nodi ffactor gyffredin, sef methiant Dŵr Cymru i gydymffurfio â gofynion Rheoliad 26 sy'n ymwneud â dyletswydd cwmni dŵr i sicrhau bod dŵr yn cael ei drin a'i ddiheintio'n ddigonol cyn iddo fynd i mewn i'r cyflenwad. Mae'n ddyletswydd ar gwmnïau i gynllunio ac i weithredu'n barhaus brosesau trin digonol ar gyfer y ffynhonnell benodol o ddŵr. Mae hyn yn golygu bod rhaid i gwmnïau fod â pholisïau diheintio a thrin yn eu llw sy'n benodol ar gyfer pob gwaith trin. Yn ogystal â'r achosion a grybwyllir uchod, mewn dau o weithfeydd eraill Dŵr Cymru Broomy Hill (yn Lloegr) a Pendine roedd yna fwy nag un digwyddiad yn

ystod y flwyddyn oedd yn dangos nad oedd y gofynion hyn yn cael eu hateb. Oherwydd y diffyg hwn o weithredu effeithiol Rheoliad 26 (a ddaeth i rym ar 22 Rhagfyr 2007) mae'r cwmni wedi blaenoriaethu datblygiad gweithdrefnau sy'n benodol ar gyfer safleoedd er mwyn cydymffurfio â Rheoliad 26. Bydd yr Arolygiaeth yn defnyddio'r wybodaeth yma i hysbysu ei raglen o archwiliadau technegol yn ystod 2009.

Mae'r drosedd o gyflenwi dŵr sy'n anaddas i'w yfed gan bobl dan ystyriaeth gan yr Arolygiaeth mewn cysylltiad â dau ddigwyddiad a ddigwyddodd yng Nghymru yn 2008.

Ymrwymiad Awdurdodau Lleol

Cyflenwadau dŵr cyhoeddus – asesiadau risg

Mae Adran 77 o Ddeddf Dŵr 1991 yn gosod cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i sicrhau eu bod yn hysbys ynglŷn ag ansawdd y cyflenwad dŵr yfed i eiddo yn eu hardal. Hyd yn hyn, mae ymwneud arferol yr awdurdodau lleol gyda'r cyflenwad dŵr cyhoeddus wedi golygu cadw mewn cysylltiad gyda'r cwmnïau dŵr ynglŷn â chwynion defnyddwyr a chanlyniadau profion dŵr wrth dapiau defnyddwyr. Cyflwynodd y newid a wnaed i'r rheoliadau yn Rhagfyr 2007 yr angen i asesiadau risg cynhwysfawr gael eu gwneud ar bob system gyflenwi dŵr, a galluogi'r awdurdodau lleol i gael gwybodaeth am ddiogelwch cyflenwadau dŵr cyhoeddus yn eu hardal. Erbyn 1 Hydref 2008, roedd gofyn i gwmnïau dŵr gyflawni asesiadau risg Rheoliad 27 yn defnyddio methodoleg cynllun diogelwch dŵr ar gyfer pob system gyflenwi dŵr. Canlyniad y gwaith yma oedd adroddiad Rheoliad 28 i'r Arolygiaeth a chynllun i drosglwyddo gwybodaeth am bob asesiad risg i bob awdurdod lleol perthnasol ac unigolion o fewn maes iechyd lleol o fewn y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus yng Nghymru.

Mae cyfanswm o 796 asesiad risg Rheoliad 27 ar waith nawr yng Nghymru a Lloegr. Yn *Atodiad 6* yr adroddiad hwn rydym ni wedi rhestru, ar gyfer pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, nifer yr asesiadau risg sy'n ymwneud â'u hardal nhw. Mae'r Arolygiaeth yn annog awdurdodau lleol i wirio bod cwmnïau wedi cysylltu â nhw ynglŷn â phob asesiad risg perthnasol.

Yn ystod 2009, bydd yr Arolygiaeth yn asesu pob asesiad risg cwmni dŵr. Mae gan yr Arolygiaeth y pŵer i ddsbarthu rhybudd i fynnu gwelliant ac fe fydd copi o'r rhybuddion yma yn cael eu hanfon yn uniongyrchol at yr awdurdodau lleol perthnasol.

Cyflenwadau dŵr preifat

Mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb uniongyrchol i sicrhau iachusrwydd a diogelwch cyflenwadau dŵr preifat yng Nghymru ac fe allant alw ar yr Arolygiaeth am gyngor technegol pan fo angen. Yng Nghymru, mae awdurdodau lleol yn gwybod am 3,951 o gyflenwadau dŵr preifat. Mae tabl 16 yn rhoi gwybodaeth ynglŷn â nifer y cyflenwadau gan eu grŵpio yn ôl llwyth y dŵr a gyflenwir y dydd.

Tabl 16: Nifer y cyflenwadau dŵr preifat yn ôl llwyth y dŵr a gyflenwid bob dydd

	Nifer y cyflenwadau dŵr preifat yn ôl y llwyth a nodir			
	<10m ³ y dydd	10m ³ – 99m ³ y dydd	100m ³ – 399m ³ y dydd	400m ³ – 1000m ³ y dydd
Cymru	3,562	355	4	30
Lloegr				
Rhanbarth canolog	6,341	421	12	11
Rhanbarth y dwyrain	2,118	215	23	13
Rhanbarth y gogledd	5,496	352	19	15
Rhanbarth y de	454	56	129	6
Rhanbarth Thames	1,056	206	126	5
Rhanbarth y Gorllewin	8,414	550	27	5
Cyfanswm Lloegr	23,879	1,800	336	55
Cyfanswm Cymru a Lloegr	27,441	2155	340	85

Yn dilyn arolwg o'r Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat 1991, fe gyflwynodd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) ddogfen ymgynghorol ar y rheoliadau newydd arfaethedig (Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Lloegr) 2009)² Roedd y cyfnod ymgynghorol yn ymestyn o 11 Awst tan 3 Tachwedd 2008. Pwrpas y newid yw troi anghenion Cyfarwyddyd Dŵr Yfed yr UE 1998 yn gyfraith a diogelu iechyd defnyddwyr sy'n dibynnu ar gyflenwadau dŵr preifat at gyfer yfed a choginio. Dangosodd yr ymgynghoriad nad oedd y trefniadau oedd yn bodoli ar gyfer diogelwch cyflenwadau dŵr preifat yn ddigonol. Mae newidiadau tebyg yn cael eu cynnig ar gyfer Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad oedd 8 Mehefin 2009³.

Cyhoeddodd Defra 105 ymateb a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori⁴. Nodir y prif bwyntiau godwyd isod:

- Ystyriwyd bod uchafswm y ffioedd a gynigiwyd yn annigonol i gwrdd â chostau awdurdodau lleol i gyflawni gwaith monitro ac asesiadau risg
- Mae angen cyfarwyddyd ar ddiffiniad system ddsbarthu breifat
- Mae'r cyfnod amser arfaethedig o chwe mis gogyfer â chasglu data gan awdurdodau lleol yn rhy fyr
- Mae'r cyfnod cadw data o 30 mlynedd yn rhy hir ac nid yw'n gyson gydag anghenion casglu data arall
- Roedd cyflenwadau domestig bychan sy'n cael eu rhannu yn gategori oedd yn creu risg uwch a theimlwyd nad oedd y drefn monitro a gynigiwyd yn ddigonol

Yn gyfochrog â'r gweithgarwch uchod, mae'r Arolygiaeth wedi bod yn gweithio'n glos drwy gydol y flwyddyn gydag awdurdodau lleol i ddatblygu'r arweiniad technegol sydd angen er mwyn gweithredu'r rheoliadau cyflenwad dŵr preifat newydd. Ffurfiwyd grŵp rhanddeiliaid

² Ymgynghoriad ar gyfer Lloegr i'w weld yn

<http://www.defra.gov.uk/corporate/consult/private-watersupplies/index.htm>

³ Ymgynghoriad ar gyfer Cymru i'w weld yn

<http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/privatewater/?lang=en>

⁴ Dogfen gynhoi i'w gweld yn

<http://www.defra.gov.uk/corporate/consult/private-watersupplies/summary-responses.pdf>

enedlaethol i adnabod a deall materion a gododd yn ystod yr ymgynghoriad ac i ddatblygu a dosbarthu arfer da. Tynnodd yr Arolygiaeth sylw at ddau brif beth: datblygu gydag awdurdodau lleol a chreuwr meddalwedd systemau a dulliau effeithiol ar gyfer casglu data ac adrodd, a chreu rhaglenni hyfforddi cenedlaethol. Mae awdurdodau lleol wedi gofyn am wybodaeth ar y we ac mae'r Arolygiaeth yn gweithio gyda Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd a chynrychiolwyr o Wasanaethau Rheoliadol yr Awdurdodau Lleol er mwyn datblygu hyn.

Trwy ei rôl yn rheolaeth Rhaglen Ymchwil Ansawdd a Iechyd Dŵr Defra, mae'r Arolygiaeth wedi adnabod, ac fe fydd yn comisiynnu yr ymchwil perthnasol i wella'r sail tystiolaeth risg perthnasol i gyflenwadau dŵr preifat.

Am fwy o wybodaeth ar y Rheoliadau Cyflenwad Dŵr (Ansawdd Dŵr) 2001 (fel y'u diwygiwyd) 2007, neu'r paramedrau microbiolegol a chemegol gaiff eu trin yn y rheoliadau gallwch gyfeirio at wefan ADY: <http://www.dwi.gov.uk>

Os ydych angen gwybodaeth fwy penodol na'r hyn geir ar ein gwefan, cysylltwch â ni ar linell ymholiadau ADY: 020 7270 3370.

Atodiad 1

Ffynonellau eraill o wybodaeth

Mae'r cyhoeddiad *Dŵr Yfed 2008* yn cynnwys yr adroddiadau rhanbarthol ar gyfer Lloegr ac adroddiad sy'n sôn am Gymru. Mae chwech adroddiad rhanbarthol ar gyfer Lloegr (Canolbarth, Dwyrain, Gogledd, De, Thames a Gorllewin) ac un ar gyfer Cymru (mewn dwy iaith). Mae pob adroddiad yn cyflwyno data monitro o 2008 dan y penawdau canlynol:

- Cyflwyniad i'r adroddiad
- Crynodeb o gasgliadau'r Arolygiaeth Dŵr Yfed ar gyfer ansawdd dŵr yfed
- Trefniadau cyflenwad dŵr
- Profi ansawdd dŵr yfed
- Canlyniadau ansawdd dŵr yfed
- Dirnadaeth defnyddwyr o ansawdd dŵr yfed
- Digwyddiadau yn 2008
- Ymrwymiad awdurdodau lleol

Mae pob adroddiad yn cychwyn gyda chrynodeb byr o gasgliadau'r Arolygiaeth am ansawdd dŵr yfed yn 2008.

Caiff yr adroddiad a'r holl gynnwys arall eu cyhoeddi ar wefan yr ADY <http://www.dwi.gov.uk>

Cynnwys y cryno-ddisg

Mae'r gryno-ddisg a ddaw gyda'r adroddiad yn cynnwys yr holl gynnwys uchod yn ogystal â:

Tablau bras cwmnïau dŵr

Mae'r rhain yn crynhoi holl ganlyniadau monitro y cwmnïau dŵr yn ystod 2008. Mae'n nhw'n cynnig gwybodaeth am:

- Beth a brofwyd
- Faint o brofion a wnaed
- Ystod y canlyniadau
- Sawl prawf fethodd gyrraedd y safon

Digwyddiadau yng Nghymru a Lloegr 2008

Er mwyn hybu dysgu gyda'n gilydd, mae'r Arolygiaeth wedi paratoi rhestr o ddigwyddiadau 2008 sy'n dangos natur ac achos pob digwyddiad, prif

gamau adfer y cwmni a chasgliadau asesiadau'r arolygwyr. Gellir gweld y cynnwys perthnasol o'r rhestr hon mewn atodiad i bob adroddiad.

Rhestr o asesiadau risg fesul awdurdod lleol

Rhestr yw hon ar gyfer awdurdodau lleol i'w hysbysu o'r nifer o asesiadau risg a wnaethpwyd gan bob cwmni dŵr sy'n cyflenwi dŵr yfed yn eu hardal.

Atodiad 2

Rhestr termau a disgrifiad o safonau

Bydd y diffiniadau hyn yn cynorthwyo dealltwriaeth o'r adroddiad lle mae termau technegol wedi eu defnyddio.

1,2-Dichloroethane	toddydd all gael ei ddarganfod mewn dŵr daear agos at safleoedd diwydiannol. Lle bo'n angenrheidiol, defnyddir triniaeth arbennig i'w waredu. Mae safon wedi ei seilio ar iechyd Ewropeaidd o 3µg/l yn cael ei weithredu.
Acrylamide	safon Ewropeaidd wedi ei seilio ar iechyd. Ni chanfyddir monomer mewn dŵr yfed fel rheol. Caiff ei gynhyrchu wrth wneud polyacrylamides a ddefnyddir o dro i dro wrth drin dŵr. Cyfyngir ei fodolaeth mewn dŵr yfed trwy reoli manylion y cynnyrch. Y safon yw 0.1µg/l.
Alcali	toddiad sy'n cynnwys gormodedd o ïonau hydroxyl rhydd, gyda pH uwch na saith.
Alwminiwm	yn ymddangos yn naturiol mewn rhai ffynonellau dŵr. Defnyddir triniaeth gonfensiynol i'w waredu (ceulad a hidlad). Gall alwminiwm sylffad a chlorid polyalwminiwm gael eu defnyddio fel cemegau trin dŵr mewn rhai gweithfeydd trin dŵr. Y safon Cenedlaethol yw 200µg/l.
Amoniwm	halennau sy'n bresennol ar lefelau isel iawn yn naturiol yn y rhan fwyaf o ffynonellau dŵr. Gall ddynodi difwyniant o arwyddocâd glanweithiol a gallant ymyrryd â'r prosesau diheintio. Paramedr dynodol gydag amcan werth o 0.5mg/l.
Amser cyflenwi	y foment pan fo'r dŵr yn pasio o bibellau'r cwmni dŵr i bibellau'r defnyddiwr.
Antimoni	anaml iawn y canfyddir hwn mewn dŵr yfed. Gall olion bychan iawn ohono ymddangos mewn dŵr o ganlyniad i ffitiadau tap a sodr pres. Y safon Ewropeaidd wedi ei seilio ar iechyd yw 5µg/l.
Archwiliad technegol	ffordd o wirio bod cwmnïau dŵr yn cydymffurfio gyda'u goblygiadau statudol.

Arogl	gall godi o ganlyniad i'r prosesau naturiol mewn dŵr ar yr wyneb yn enwedig rhwng y gwanwyn hwyr a chychwyn yr hydref. Bydd trin y dŵr gyda carbon egnïoledig neu osôn yn ffordd o waredu'r sylweddau naturiol yma. Mae'r safon yn berthnasol i asesiadau panel o bobl sy'n asesu samplau yn y labordy.
Arolwg Cyfnodol 09 (PR09)	Y broses o bennu prisiau ar gyfer 2010-2015
Arolwg Rheolaidd	proses y rheolydd economaidd o bennu prisiau dŵr.
Arolygiaeth	Yr Arolygiaeth Dŵr Yfed.
Arsenig	yn ymddangos yn naturiol mewn nifer bychan o ffynonellau dŵr daear. Mae'n rhaid defnyddio triniaethau penodol i'w waredu. Mae safon wedi ei seilio ar iechyd Ewropeaidd o 10µg/l yn cael ei weithredu.
Asesiad cydymffurfiaeth	cymhariaeth a wneir gan yr Arolygiaeth o ddata a gesglir gan gwmnïau dŵr yn erbyn safonau ac anghenion rheolyddol eraill.
Asesiad cyn ac wedi adnewyddiad	rhaglen asesu cyn ac ar ôl adnewyddiad prif bibellau dŵr er mwyn dangos gwerth y gwaith a'r gwelliannau a wnaed yn sgil yr adnewyddiad..
Asiantaeth yr Amgylchedd	mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn gyfrifol am gynnal a gwella ansawdd dŵr ffres, dŵr môr, dŵr ar yr wyneb a dŵr tanddaearol yng Nghymru a Lloegr.
Bacteria coliform	i'w canfod yn yr amgylchedd, yn aml o ganlyniad i weithgarwch dynol neu anifail ond bydd rhai yn tyfu ar blanhigion. Os yn bresennol yn y cyflenwad dŵr yfed, rhaid archwilio 'r system gyflenwi. Y safon yw 0 ymhob 100ml.
Bensen	yn bresennol mewn petrol. Nid yw'n bresennol mewn dŵr yfed ond mae modd iddo dreiddio drwy bibellau cyflenwi plastig tanddaearol os oes petrol wedi gollwng yn yr ardal. Cofnodwyd bod ambell ddŵr potel a diod meddal sy'n cynnwys sodiwm benzoate yn cynnwys bensen. Mae safon wedi ei seilio ar iechyd Ewropeaidd o 1µg/l yn cael ei weithredu.

Benzo(a)pyrene (BaP)	un o grŵp o gompowndiau a elwir yn hydrocarbonau aromatig polysyclig (HAP). Mae'n medru ymddangos mewn dŵr o ganlyniad i ddirywiad coltar a ddefnyddiwyd flynyddoedd yn ôl i leinio pibellau dŵr. O ganlyniad i lawer o waith ailosod prif bibellau, anaml iawn y canfyddir y sylwedd yma mewn dŵr bellach. Mae safon wedi ei seilio ar iechyd Ewropeaidd o 0.01µg/l yn cael ei weithredu.
Bias	gall godi o ganlyniad i'r prosesau naturiol mewn dŵr ar yr wyneb yn enwedig rhwng y gwanwyn hwyr a chychwyn yr hydref. Bydd trin y dŵr gyda carbon egnïoledig neu osôn yn ffordd o waredu'r sylweddau naturiol yma. Mae'r safon yn berthnasol i asesiadau panel o bobl sy'n asesu samplau yn y labordy.
Boron	daw boron mewn ffynonellau dŵr ar yr wyneb o wastraff diwydiannol neu o lanhawyr mewn carthffrydiau carthffosiaeth wedi ei drin. Nid yw'r crynoadau sy'n bresennol mewn dŵr yfed yn beryglus i iechyd y cyhoedd. Mae safon wedi ei seilio ar iechyd Ewropeaidd o 1mg/l yn cael ei weithredu.
Bromad	gall gael ei ffurfio yn ystod y broses o ddiheintio dŵr yfed trwy gyfrwng adwaith bromad naturiol gydag ocsidyddion cryf (osôn fel arfer). Mae'n bosib ei fod yn cael ei greu wrth gynhyrchu diheintydd sodiwm hypochlorite. Fel eithriad, gall dŵr daear o dan safle diwydiannol gael ei ddifwyno gan fromad. Mae safon wedi ei seilio ar iechyd Ewropeaidd o 10µg/l yn cael ei weithredu.
Cadmiwm	anaml iawn y canfyddir hwn mewn dŵr yfed. Os canfyddir olion o gwbl, mae'r rhain fel arfer o ganlyniad i ymdoddiad amhureddau o ffitiadau plymwaith. Mae safon wedi ei seilio ar iechyd Ewropeaidd o 5µg/l yn cael ei weithredu.
Carbon Egnïoledig Gronynnog	dull o hidlo arsugol a ddefnyddir i waredu olion compowndiau organig o ddŵr.
Carbon Egnïoledig Powdwr	Rhan o'r broses trin dŵr i waredu llygrwyr
Carbon Organig Llawn	cynrychioli cyfanswm y mater organig mewn dŵr. Dangosydd paramedr gyda chanllaw gwerth 'dim newid annormal'.
Ceulad	proses a ddefnyddir wrth drin dŵr yfed sy'n helpu i waredu unrhyw fater gronynnol.

Cloramin	sylwedd gaiff ei ffurfio yn sgil yr adwaith rhwng clorin ag amonia, a ddefnyddir fel diheintydd yn y system ddosbarthu am ei fod yn para'n hirach na clorin.
Clorid	elfen mewn halen naturiol. Gall ymddangos yn naturiol mewn dŵr neu o ganlyniad i ddefnydd lleol o halen dadrewi neu ymyrraeth halenog. Paramedr dangosydd gyda chanllaw gwerth o 250mg/l.
Clorid Fynyl	gall fod yn bresennol mewn pibellau plastig yn dilyn y broses gynhyrchu pibellau clorid polyfynyl (PVC). Rheolir y lefelau mewn dŵr yfed trwy fanylion cynnyrch. Mae safon wedi ei seilio ar iechyd Ewropeaidd o 0.5µg/l mewn grym.
Cloroamineiddiad	y broses o greu gweddillion diheintydd cloramin mewn dŵr sy'n gadael gweithfeydd trin.
<i>Clostridium perfringens</i>	bacteria sy'n ffurfio sbôr sy'n bresennol ym mherfedd anifeiliaid gwaed-cynnes. Gall y sborau hyn oroesi'r broses ddiheintio. Os yw'r sborau yma'n bresennol mewn dŵr yfed mae'n arwydd o ddifwyniant hanesyddol ac mae gofyn am archwiliad. Y safon yw 0 ymhob 100ml.
Cofrestr cyhoeddus	gwybodaeth am ansawdd dŵr yfed sydd ar gael i'r cyhoedd yn ôl gofynion y rheoliadau..
Compownd	mae compownd yn cynnwys dau neu fwy o elfennau mewn cyfuniad cemegol.
Copr	mewn dŵr yfed fel arfer o ganlyniad i bibellau a ffitiadau copr mewn cartrefi. Yn gyffredinol, nid yw ffynonellau dŵr yn ymosodol tuag at gopr ond gall problemau godi'n achlysurol ar stadau tai newydd. Gall yr achlysuron "dŵr glas" yma gael eu hosgoi trwy ddefnyddio plymwaith da. Mae safon wedi ei seilio ar iechyd Ewropeaidd o 2mg/l yn cael ei weithredu.
Cromiwm	ddim yn bresennol mewn dŵr yfed. Mae safon wedi ei seilio ar iechyd Ewropeaidd o 50µg/l yn cael ei weithredu.
Cronfa wasanaeth	tŵr dŵr, tanc neu gronfa arall a ddefnyddir i storio dŵr wedi ei drin o fewn y system ddosbarthu.

Crynhoad neu werth Penodedig	y gwerth rhifyddol sy'n cael ei roi i safonau dŵr yfed i ddiffinio uchafswm neu isafswm crynhoad neu werth cyfreithiol paramedr.
Cyfartaledd canran cydymffurfiaeth parthol	Mesur o gydymffurfiaeth gyda'r safon dŵr yfed a gyflwynwyd gan yr Arolygiaeth yn 2004
<i>Cryptosporidium</i>	parasit sy'n achosi gastro-enteritis difrifol a gall oroesi'r broses ddiheintio. Yn y DU mae monitro parhaus yn mynd ymlaen o fewn y gweithfeydd lle credir bod risg sylweddol.
Cyfarwyddyd Dŵr Yfed y CE	Cyfarwyddyd Cyngor 98/83/CE Rhagfyr 1998 – gosod safonau dŵr yfed ar gyfer aelodau'r Gymuned Ewropeaidd
Cyflenwad llwyth	dŵr sy'n cael ei gyflenwi mewn llwyth, fel arfer wedi ei drin, o un cwmni dŵr i un arall.
Cyflenwadau awdurdodedig	cyflenwad dŵr am ddim, wedi ei warchod gan gytundeb hanesyddol, i berchennog eiddo a sefydlir pan fydd cwmni am osod prif bibell ar hyd y tir a'r perchennog yn cytuno, os caiff ganiatâd, i gymryd cyflenwad dŵr o'r brif bibell.
Cyflenwadau cyhoeddus	dŵr a gyflenwir gan gwmni wedi ei drwyddedu ar gyfer y pwrpas hwnnw.
Cyflenwadau preifat	dŵr a dynnir o ffynonellau preifat neu a gyflenwir gan gyflenwyr heb drwydded; cyflenwadau dŵr a gaiff eu cyflenwi gan unrhyw un ar wahân i ymgwymerwr dŵr wedi ei benodi'n statudol.
Cyfrifiad coloni	technegau ar gyfer adnabod ystod eang o facteria, y mathau a'r niferoedd yn dibynnu ar amodau'r profion. Mae'r cyfrifon yma, os y'u gwneir yn aml, yn medru bod o fudd i'r rheolwyr dŵr ond nid oes arwyddocâd iechyd uniongyrchol iddynt. Y safon yw 'dim newid annormal'.
Cymylogrwydd	Mesur o gymylogrwydd dŵr. Mae'r mesur yn baramedr rheoli ansawdd dŵr pwysig mewn gweithfeydd trin dŵr oherwydd gall gael ei fonitro'n barhaus ar-lein a gosodir larymau i hysbysu ynglŷn â dirywiad ansawdd dŵr crai neu'r angen i drin y dŵr. Dangosydd paramedr gyda chanllaw gwerth o 1NTU. Pan gaiff ei ganfod yn nhap y defnyddiwr gall godi o aflonyddu'r gwaddodion oddi fewn i'r brif bibell ddŵr. Yn yr achos hwn mae safon Genedlaethol o 4NTU yn gymwys

Cyswllt gwasanaeth	cyswllt rhwng prif bibell y cwmni dŵr ag eiddo defnyddiwr
Dargludedd	mesur anarwyddocaol o'r sylweddau anorganig sydd wedi toddi o fewn y dŵr. Paramedr dangosydd gyda chanllaw gwerth o 2,500µS/cm.
Datganiad o fwriad	cydnabyddiaeth ysgrifenedig ffurfiol oddi wrth gwmni dŵr ynglŷn â'i gynlluniau i adfer sefyllfa arbennig.
Digwyddiad	achlysur sy'n effeithio neu'n bygwth effeithio ansawdd dŵr yfed.
Diheintydd gweddilliol	Yr ychydig glorin neu gloramin sy'n bresennol mewn dŵr yfed er mwyn cynnal ei ansawdd wrth iddo basio drwy rwydwaith pibellau'r cwmni dŵr a phlymwaith y cartref.
Dôs dynodol llawn	mesur o'r dos effeithiol o belydriad y bydd y corff yn ei dderbyn wrth yfed dŵr. Dim ond pan fydd gwerthoedd sgrinio gros alpha neu gros beta (pelydredd) yn uwch na'r arfer y bydd gofyn edrych ar y mesur hwn. Dangosydd paramedr gyda chanllaw gwerth o 0.10mSv/y flwyddyn.
Dosio ffosffad	trin y dŵr yn y fath fodd nes bod ffilm amddiffynnol yn ymgasglu y tu mewn i bibellau gan leihau presenoldeb plwm mewn dŵr yfed a gyflenwir trwy bibellau plwm.
Dŵr wyneb	dŵr heb ei drin o afonydd, cronfeydd cronni neu darddiad arall o ddŵr ar yr wyneb
Dŵr crai	dŵr cyn iddo gael ei drin ar gyfer ei yfed.
Dŵr daear	dŵr o ddyfrhaenau neu darddiadau tanddaearol eraill.
Dŵr wedi ei drin	dŵr wedi ei drin ar gyfer ei ddefnyddio'n ddomestig fel y'i diffinnir yn y Rheoliadau.
Dyfrhaen	haen tanddaearol sy'n cynnwys dŵr.
Enterococci	Gweler Escherichia coli.
Epichlorhydrin	gellir dod o hyd i olion mewn cemegion trin dŵr polyamine. Rheolir y lefelau mewn dŵr yfed trwy fanylion cynnyrch. Mae safon wedi ei seilio ar iechyd Ewropeaidd o 0.1µg/l yn cael ei weithredu.

Epidemioleg	proses o astudio dosbarthiad achosion o afiechyd o fewn poblogaeth mewn perthynas â dinoethiad i ffynonellau heintiad posib, gyda'r bwriad o sefydlu union darddiad yr heintiad.
Escherichia coli ac Enterococci	Bacteria sy'n bresennol ym mherfedd anifeiliaid gwaed-cynnes. Ni ddylai rhain fod yn bresennol mewn dŵr yfed, fodd bynnag, os canfyddir hwy dylid gweithredu'n gyflym i adnabod a gwaredu unrhyw ffynhonnell o ddifwyniant ysgarthol. Y safon yw 0 ym mhob 100ml.
Esthetig Fflŵorid	yn gysylltiedig â'r synhwyrau blas, arogl a golwg. yn ymddangos yn naturiol mewn nifer o ffynonellau dŵr yn arbennig dŵr daear. Ni ellir ei waredu trwy ddefnyddio triniaethau cyffredin ac felly rhaid lleihau lefelau uchel ohono trwy ei gymysgu gyda dŵr o ffynhonnell arall sydd â lefelau fflŵorid isel. Mae rhai awdurdodau lleol yn mynnu bod cwmnïau dŵr yn ychwanegu fflŵorid mewn modd artiffisial at ddŵr er mwyn cynorthwyo i rwystro dannedd rhag pydru. Mae'r safon dŵr yfed yn sicrhau bod y lefelau'n saff. Polisi yr Adran Iechyd yw fflŵorideiddio. Mae safon wedi ei seilio ar iechyd Ewropeaidd o 1.5mg/l yn cael ei weithredu.
Ffynhonnau	dŵr daear sy'n dod i'r wyneb lle daw haenen athraidd a haenen an-athraidd i gwrdd â'i gilydd.
Geosmin	Deunydd a gynhyrchir gan dyfiant algâu, fel arfer mewn dŵr ar yr wyneb, sy'n achosi blas neu arogl "priddlyd" neu "lwydaidd" nodweddiadol
Gweddillion clorin	y lefel isel iawn o glorin neu gloraminau sy'n bresennol mewn dŵr yfed er mwyn cynnal ei ansawdd wrth iddo basio drwy rwydwaith pibellau'r cwmni dŵr a phlymwaith cartrefi defnyddwyr.
Gweithredu adferol	gwaith a wneir i wella sefyllfa.
Gweithredu gorfodol	y modd, fel y'i cofnodir yn Neddff Dŵr 1989 a'i atgyfnerthu yn Neddff Diwydiant Dŵr 1991, y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn i gwmni dŵr gydymffurfio gyda rhai anghenion rheolyddol.

Haearn	yn bresennol yn naturiol mewn nifer o ffynonellau dŵr. Fe'i gwaredir trwy'r broses trin dŵr. Caiff rhai compowndiau haearn eu defnyddio fel cemegau trin dŵr. Fodd bynnag, ffynhonnell fwyaf cyffredin haearn mewn dŵr yfed yw rhwd o fewn prif bibellau haearn. 200µg/l yw'r safon Cenedlaethol.
Hidlad	Gwahanu gronynnau mewn daliant o hylif.
Hydrocarbonau aromatig polysyclig	enw ar grŵp o sylweddau sy'n bresennol mewn cynnyrch ag iddynt sail petroliwm er enghraifft coltar.(gweler Benzo(a)pyrene a restrir uchod am fwy o wybodaeth). Mae safon wedi ei seilio ar iechyd Ewropeaidd 0.1µg/l gyfer cyfanswm yr holl sylweddau mewn grym.
Iachus/Iachusrwydd	cysyniad cyfreithiol o ansawdd dŵr a ddiffinnir trwy gyfeirio at safonau ac unrhyw anghenion eraill a nodir yn y Rheoliadau.
Ïon Hydrogen (pH)	yn rhoi syniad o lefel asidedd y dŵr. Mae pH o 7 yn niwtral; mae gwerthoedd is na 7 yn dynodi asidedd a gwerthoedd uwch yn dynodi alcali. Gall dŵr ag iddo pH isel achosi rhwd o fewn pibellau. Gellir datrys hyn drwy ychwanegu alcali yn ystod y broses trin dŵr. Mae'r safon Cenedlaethol rhwng 6.5 a 10.0.
Lliw	yn ymddangos yn naturiol mewn dŵr o dir uchel. Defnyddir triniaeth gyffredin i'w waredu. Y safon genedlaethol yw 20 mg/l ar y raddfa Pt/Co
Llythyr Gwybodaeth	canllaw ffurfiol ar gyfer cwmnïau dŵr oddi wrth yr Arolygiaeth a gaiff ei gyhoeddi ar wefan yr arolygiaeth ar www.dwi.gov.uk
m3/d	Metr giwbig y dydd.
Manganîs	Yn bresennol yn naturiol mewn sawl ffynhonnell ac fel arfer caiff ei ddiddymu yn ystod triniaeth. 50µg/l yw'r safon Genedlaethol.
Meicrobiolegol	cysylltiedig â'r astudiaeth o feicrobau.
Mercwri	Ddim yn bresennol mewn ffynonellau dŵr yfed. Mae safon wedi ei seilio ar iechyd Ewropeaidd o 1µg/l yn cael ei weithredu.
mg/l	Miligram y litr (un rhan o fil o gram y litr).

MI/d	megalitr y dydd (un MI/d yn hafal i 1,000 m ³ /d, neu 220,000 galwyn/d).
µg/l	Microgram y litr (un rhan o filiwn o gram y litr)
Nicel	yn ymddangos yn naturiol mewn rhywfaint o ddŵr daear a bydd angen triniaeth arbennig i'w waredu. Ffynhonnell arall o nicel yw'r haenau allanol ar dapiau modern a ffitiadau plymwaith arall. Mae safon wedi ei seilio ar iechyd Ewropeaidd o 20µg/l yn cael ei weithredu
Nitrad	yn bodoli'n naturiol ym mhob un o'r ffynonellau dŵr er bod crynoddau uwch i'w cael lle defnyddir gwrteithwyr ar y tir. Gall gael ei waredu trwy driniaeth cyfnewid ïon neu trwy ei gymysgu gyda ffynonellau eraill sydd â lefelau nitrad is. Mae safon wedi ei seilio ar iechyd Ewropeaidd o 50mg/l yn cael ei weithredu
Nitraid	caiff ei gynhyrchu weithiau fel is-gynnyrch pan ddefnyddir cloramin fel diheintydd gweddilliol yn y cyflenwad dŵr cyhoeddus. Cloramin yw'r diheintydd gweddilliol a ddewisir ar gyfer systemau dosbarthu mawr am ei fod yn fwy cadarn a hirbarhaol. Trwy gymryd gofal wrth weithredu'r broses ddiheintio gellir sicrhau bod y lefelau nitraid yn aros yn is na'r safon. Mae safon wedi ei seilio ar iechyd Ewropeaidd o 0.5mg/l yn cael ei weithredu.
Ofwat	rheolydd economaidd y diwydiant dŵr.
Oocyst	ffurf wrthsafol <i>Cryptosporidium</i> yn yr amgylchedd, sy'n medru achosi heintiad.
Organeb Dynodol	organedd sy'n dangos presenoldeb heintiad ac felly presenoldeb posib pathogenau
Organoleptig	nodweddion sylwedd yn ôl ein synhwyrâu er enghraifft blas, arogl neu liw.
Paramedr Dynodol	rhywbeth sy'n cael ei fesur er mwyn gwirio bod mesurau rheoli, megis trin dŵr, yn gweithio'n effeithiol.
Paramedrau	y sylweddau, yr organeddau a'r nodweddion a restrir yn Atodlen 2 a Rheoliad 3 o'r Rheoliadau. Gellir gweld diffiniadau o'r paramedrau ymhellach ymlaen yn yr atodiad hwn.
Parasitiaid protosoaid	organedd un cell sydd ond yn gallu goroesi trwy fyw ar organedd arall.

Parth cyflenwi dŵr	ardal gyflenwi a ddiffiniwyd ar gyfer sefydlu samplo, cydymffurfiaeth gyda safonau a gwybodaeth i'w wneud yn hysbys i'r cyhoedd.
Pathogen	organedd sy'n medru heintio bodau dynol ac achosi afiechyd
PCV	gweler 'Crynhoad neu werth penodedig'.
Pibell gyfathrebu	y cysylltiad rhwng y brif bibell ddŵr â ffin cartref y defnyddiwr.
Pibell gyflenwi	pibell sy'n cysylltu ffin eiddo defnyddiwr â'r stop tap tu mewn i'r eiddo
Pibell wasanaeth	y bibell wasanaeth yw'r bibell sy'n cysylltu eiddo'r defnyddiwr i brif bibell y cwmni dŵr. Mae dwy ran iddo – y bibell gyfathrebu sef y cyswllt rhwng y brif bibell â ffin eiddo'r defnyddiwr (fel arfer y stop tap tu allan) a'r bibell gyflenwi sy'n rhedeg o ffin yr eiddo i stop tap y defnyddiwr y tu mewn i'r tŷ.
Pibell farw	Mae pibell farw'n cyfeirio at ddarn o beipen sydd wedi ei chau ar un pen ond sydd wedi ei chysylltu â'r cyflenwad y pen arall a gall achosi i ferddwr gasglu yn y pibelli.
Plaladdwyr	unrhyw ffyngladdwr, chwynladdwr, pryfleiddiad neu gynnyrch perthnasol (ac eithrio moddion) a ddefnyddir i reoli pla neu afiechyd.
Plaladdwyr – ar wahân i'r compowndiau organoclorin	grŵp mawr ac amrywiol o gompowndiau organig sy'n cael eu defnyddio fel chwynladdwyr, pryfleiddiaid a ffyngladdwyr. Mae nifer o ffynonellau dŵr yn cynnwys olion o un neu fwy o'r plaladdwyr o ganlyniad i ddefnydd amaethyddol ac anamaethyddol ar gnydau ac er mwyn rheoli chwyn wrth ochr y priffyrdd ac mewn gerddi. Lle bo angen, bydd cwmnïau dŵr yn trin y dŵr (carbon egnïoledig ac osôn) er mwyn gwaredu'r plaladdwyr o'r dŵr. Rhaid i gwmnïau dŵr brofi am fodolaeth y plaladdwyr hynny sy'n cael eu defnyddio o fewn eu hardal gyflenwi. O ganlyniad mae monitro plaladdwyr yn amrywio yn ôl risg. Mae safon cemegol Ewropeaidd o 0.1 µg/l ar gyfer pob sylwedd unigol a 0.5 µg/l ar gyfer cyfanswm yr holl blaladdwyr mewn grym.
Plaladdwyr – compowndiau organoclorin (aldrin, dieldrin, heptachlor, heptachlor epoxide)	ddim yn cael eu defnyddio bellach yn y DU gan eu bod yn barhaol yn yr amgylchedd. Nid ydynt yn bresennol mewn dŵr yfed. Mae cemegol Ewropeaidd o 0.03µg/l ar gyfer pob compownd yn cael ei weithredu.

Plwm	anaml iawn yr ymddengys hwn yn naturiol mewn dŵr crai. Os ymddengys, fel arfer bydd o ganlyniad i blymwaith mewn hen dai. Os oes tuedd i'r cyflenwad dŵr doddi'r plwm, bydd y cwmnïau dŵr yn trin y dŵr er mwyn amddiffyn y defnyddwyr. Yr unig ffordd o ddatrys y broblem yn barhaol yw trwy waredu pibellau a ffitiadau plwm o'r cartref. Mae safon wedi ei seilio ar iechyd Ewropeaidd o 251µg/l yn gweithredu ar hyn o bryd ond daw safon o 10µg/l i rym o 2013 ymlaen.
Proses Osôn (osoneiddio)	defnyddio nwy osôn wrth drin dŵr.
Pwynt cyflenwi	pwynt arall ar wahân i dap defnyddiwr lle awdurdodir cymryd samplau ar gyfer cydymffurfiaeth gyda'r rheoliadau.
Rh.A.D	Rheolaeth Ansawdd Dadansoddol yw'r broses a ddefnyddir i sicrhau bod dulliau dadansoddi yn y labordy yn gweithio'n gywir.
Rhaglenni Gwelliant	rhaglenni gwella cwmnïau dŵr. Mae'r rhain yn gyfreithiol rwymol a bydd pob rhaglen yn adfer achos o dorri safon dŵr yfed o fewn cyfnod penodedig o amser.
Rheoliadau	Rheoliadau Cyflenwad Dŵr (Ansawdd Dŵr) 2000 (Lloegr), 2001 Cymru.
Safonau dŵr yfed	y crynadau neu'r gwerthoedd penodedig a nodir yn y Rheoliadau
Seianid	Ddim yn bresennol mewn dŵr yfed. Mae safon wedi ei seilio ar iechyd Ewropeaidd o 50µg/l yn cael ei weithredu.
Seleniwm	elfen hanfodol ac yn rhan bwysig o'n deiet. Mae'r lefelau a ganfyddir yn ein dŵr yfed fel rheol dipyn yn is na'r safon. Mae safon wedi ei seilio ar iechyd Ewropeaidd o 10µg/l mewn grym.
Sodiwm	rhan o halen cyffredin. Yn bresennol mewn dŵr môr a dŵr daear hallt. Mae ambell gemegyn trin dŵr yn cynnwys sodiwm. Mae crynadau mewn dŵr yfed yn isel iawn ond bydd rhai meddalwyr dŵr gaiff eu defnyddio mewn cartrefi a ffatrioedd yn ychwanegu'n sylweddol at y lefel mewn dŵr yfed. Mae safon genedlaethol o 200mg/l mewn grym.

Sylffad	yn ymddangos yn naturiol ym mhob dŵr ac ni ellir ei waredu. Dangosydd paramedr gyda chanllaw gwerth o 250mg/l.
Systemau dosbarthu	rhwydwaith y cwmni o brif bibellau, pibellau, gorsafoedd pwmpio a chronfeydd gwasanaeth y mae'r dŵr wedi ei drin yn teithio drwyddo er mwyn cyrraedd y defnyddwyr.
Tanc cyswllt	Tanc sy'n ffurfio rhan o'r broses ddiheintio a gaiff ei leoli ar safle'r gweithfeydd trin fel arfer. Caiff cemegyn diheintio (clorin fe rheol) ei ychwanegu at y dŵr wrth iddo lifo i'r tanc. Mae'r amser a gymer hi i'r dŵr lifo drwy'r tanc yn ddigonol i sicrhau bod y cemegyn yn medru "cysylltu" ac o ganlyniad yn lladd neu'n dadfywiogi unrhyw feirws neu organedd pathogenig all fod yn bresennol yn y dŵr
Tetrachloroethane a Trichloroethene	toddyddion all gael eu canfod mewn dŵr daear wrth ymyl safleoedd diwydiannol. Lle bo'n angenrheidiol defnyddir triniaeth arbennig i'w gwaredu. Mae safon wedi ei seilio ar iechyd Ewropeaidd o 10µg/l ar gyfer cyfanswm y ddau sylwedd mewn grym.
Tetrachloromethane	toddydd all ymddangos mewn dŵr daear yn agos i safleoedd diwydiannol. Lle bo'n angenrheidiol gellir trin y dŵr er mwyn ei waredu. Mae safon genedlaethol o 3µg/l mewn grym.
Tîm Rheoli Achos	tîm wedi ei greu i ymchwilio achosion posib o cryptosporidiosis sy'n deillio o'r dŵr, sy'n cynnwys aelodau o'r proffesiwn meddygol yn ogystal â chynrychiolwyr o'r awdurdodau lleol perthnasol a'r cwmnïau dŵr.
Tocsicoleg	astudiaeth o effeithiau iechyd sylweddau
Toddiant Plwm	Tuedd plwm i doddi mewn dŵr.
Trihalomethanes	yn cael eu ffurfio yn y broses o ddiheintio dŵr yn sgil yr adwaith rhwng clorin a sylweddau organig naturiol. Gellir eu lleihau trwy ddefnyddio arferion da. Mae safon wedi ei seilio ar iechyd Ewropeaidd o 100µg/l mewn grym.
Tritium	isotop ymbelydrol o hydrogen. Mae'r lefelau ohono yn yr amgylchedd yn cael eu rheoli'n llym a ceir rhaglen cenedlaethol sy'n gofalu am fonitro dŵr ar yr wyneb. Dangosydd paramedr gyda chanllaw gwerth o 100Bq/l.
Troseddu	torri gofynion rheolydd

WHO	World Health Organisation
Ymadawiad wedi ei Awdurdodi	awdurdodi cwmni dŵr yn y tymor byr i gyflenwi dŵr sy'n torri un o'r safonau dŵr yfed. Rhoddir yr hawl hwn gan awdurdodau mewn achosion lle nad oes perygl i iechyd.
Ymosodol	term a ddefnyddir i ddynodi bod tuedd gan y dŵr i doddi copr (a metelau eraill) o wyneb mewnol pibell neu ffitiad dŵr megis tap.
Ysgrifennydd Gwladol	Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.

Atodiad 3

Digwyddiadau yng Nghymru yn 2008

Dyddiad a hyd (Cwmni)	Ardal	Amcangyfrif o'r boblogaeth a effeithiwyd	Natur ac achos y digwyddiad	Prif gamau a darganfyddiadau archwiliad yr Arolygiaeth
04 Ion 2008 am 1 diwrnod (DWR)	Cwm Tawe Isaf -Pontardawe a Clydach.	18,500	Afliwiad yn dilyn byrst yng ngwaith Crai	<p>Camau a gymerwyd gan Dŵr Cymru Cyfyngedig:</p> <ul style="list-style-type: none"> Atgyweiriwyd y prif gyflenwad a dychwelodd y system i weithredu normal, galwyd y cwsmeriaid yn ôl i wirio bod y dŵr afliwiedig wedi clirio <p>Sylwadau a chanfyddiadau'r ADY:</p> <ul style="list-style-type: none"> Cymeradwywyd y cwmni am ymateb a thrwsio'r prif gyflenwad ar fyrder
15 Ion 2008 am 1 diwrnod (DWR)	Bryn Golau yn cyflenwi parth Treffynnon a'r Wyddgrug	2,000	Llygriad microbiolegol yn y gronfa wasanaeth r	<p>Camau a gymerwyd gan Dŵr Cymru Cyfyngedig:</p> <ul style="list-style-type: none"> Caewyd falf y gronfa i'w thynnu o wasanaeth a chyflenwyd yr ardal ar gyflenwad wrth gefn, cynhaliwyd archwiliad allanol a mewnol o'r gronfa, cynhaliwyd arolwg o samplau <p>Sylwadau a chanfyddiadau'r ADY:</p> <ul style="list-style-type: none"> Un o dri canfyddiad ar wahân o <i>E.coli</i> o gronfeydd gwasanaeth gyflenwir gan waith trin Alwen dros gyfnod byr iawn o amser ac yn yr un ardal ddaearyddol, yn gritigol ni chynhaliwyd yr archwiliadau mewnolyn adrannau 1 a 2 yng Nghronfa Gwasanaeth Bryn Edwin yn ddigon prydlon ac ni hysbyswyd yr Arolygiaeth am yr oedi yma. Atgoffwyd y cwmni am yr angen i hysbysu'r Arolygiaeth o unrhyw gynnydd mewn gweithrediadau adferol. Argymhellwyd y dylid cynnal adolygiad o weithdrefnau i sicrhau bod patrymau samplo'n addas ac yn gyson. Rhodddwyd cyngor ynglŷn â samplo dip yn gynnar yn dilyn hysbysiad o achosion o drosedd yn ymwneud ag <i>E. coli</i> mewn cronfa wasanaeth ac am werth gwell monitro tra'n disgwyl a, gwblhau'r holl weithrediadau archwiliadol ac adferol.

Dyddiad a hyd (Cwmni)	Ardal	Amcangyfrif o'r boblogaeth a effeithiwyd	Natur ac achos y digwyddiad	Prif gamau a darganfyddiadau archwiliad yr Arolygiaeth
15 Ion 2008 am 1 diwrnod (DWR)	CW Cilcain yn cyflenwi parth Treffynnon a'r Wyddgrug	75	Llygriad microbiolegol yn y gronfa wasanaeth	Gweler uchod
22 Ion 2008 am 1 diwrnod (DWR))	Bryn Edwin yn cyflenwi parth y Fflint a Cei Connah	7,500	Llygriad microbiolegol yn y gronfa wasanaeth	Gweler uchod
29 Ion 2008 am 18 awr (DWR)	Gwaith Alwen	32,000	Colli ceulo yn dilyn toriadau yn y pŵer	<p>Camau a gymerwyd gan Dŵr Cymru Cyfyngedig:</p> <ul style="list-style-type: none"> Atgyweirio cyfarpar diffygiol <p>Sylwadau a chanfyddiadau'r ADY:</p> <ul style="list-style-type: none"> Critigol bod y cwmni wedi ailgychwyn y gwaith heb gywiro'r diffygion a arweiniodd at lefelau uwch o alwminiwm yn y dŵr a gyflenwyd, dylai'r cwmni fod wedi cau'r gwaith hwn yn gynnar, tra bod larymau ansawdd dŵr yn cael eu cynnal ar y safle Argymhellwyd cynllun wrth gefn ar gyfer pob gwaith strategol lle nad yw ailbarthu'n opsiwn ymarferol i gefnogi cau'r gwaith
21 Chwef 2008 am 1 diwrnod (DWR)	Llaneirwg a Rhymni	3,625	Afliwiad yn dilyn gwaith a gynlluniwyd ar y system ddisbarthu	<p>Camau a gymerwyd gan Dŵr Cymru Cyfyngedig:</p> <ul style="list-style-type: none"> Fflysio wedi ei gynnal yn yr ardaloedd a effeithiwyd, cynhaliwyd arolwg samplu, dosbarthwyd y wybodaeth i gwsmeriaid, cywirwyd camgymeriad yn labelu'r falfiau ar systemau gwybodaeth ddaearyddol <p>Sylwadau a chanfyddiadau'r ADY:</p> <ul style="list-style-type: none"> Roedd y digwyddiad yn ganlyniad labelu annigonol ar falfiau

Dyddiad a hyd (Cwmni)	Ardal	Amcangyfrif o'r boblogaeth a effeithiwyd	Natur ac achos y digwyddiad	Prif gamau a darganfyddiadau archwiliad yr Arolygiaeth
12 Maw 2008 am 1 diwrnod (DWR)	Gwaith Cwellyn yn cyflenwi Bangor Caernarfon a De Sir Fôn	75,000	<i>E. coli</i> mewn dŵr wedi ei drin yn gadael y gwaith.	<p>Camau a gymerwyd gan Dŵr Cymru Cyfyngedig:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Samplwyd yr ardal a effeithiwyd ac archwiliwyd y gwaith <p>Sylwadau a chanfyddiadau'r ADY:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Proses drin annigonol – dim gloymi • Proses drin annigonol – hidlad • Mae'r gwaith yn agored i gymylogrwydd ac achosion o cryptosporidiwm dan rhai amodau dŵr crai penodol oherwydd safle mewnfa'r dŵr crai a diffyg cam ceulo. • Y gwaith yn agored i sbigynnau cymylogrwydd o ganlyniad i olchi hidlwyr oherwydd nad oes yna gyfleuster i redeg gwastraff. • Angen i'r cwmni gymryd rhan mewn rhaglen waith cyfreithiol rwym er mwyn gwella trefniadau ar y safle i leihau'r risg i ansawdd dŵr
19 Ebr 2008 am 1 diwrnod (DWR)	Prestatyn, Cynherth, Meliden	10,000	Afliwiad yn dilyn gwaith a gynlluniwyd ar y system ddosbarthu	<p>Camau a gymerwyd gan Dŵr Cymru Cyfyngedig:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Samplu'r ardal a effeithiwyd, ailbarthu'r ardal (dod â dŵr i mewn o ffynhonnell arall), arolwg o'r gweithdrefnau <p>Sylwadau a chanfyddiadau'r ADY:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gweithdrefnau annigonol
29 Mai 2008 am 1 diwrnod (DWR)	Gwaith Llyswen yn cyflenwi ardaloedd gwledig ym Mhowys a Swydd Henffordd yn cynnwys y Gelli Gandryll, Clyro, Clas ar Wy, Llanbedr Castell Paen, Talgarth a Bronllys	16,000	Lefelau uwch o gymylogrwydd ac alwminiwm mewn dŵr wedi ei drin yn gadael y gwaith.	<p>Camau a gymerwyd gan Dŵr Cymru Cyfyngedig:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cywiro'r problemau gyda'r gwaith dosio calch, gwellwyd y broses drin, arolwg samplu, cynlluniau i adnewyddu'r system dosio calch <p>Sylwadau a chanfyddiadau'r ADY:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Argymhellodd y dylai'r Cwmni adolygu'r strategaeth monitro yn y safle hon a'r larymau a'r gosodiadau larymau • Argymhellodd y dylai'r Cwmni adolygu ei weithdrefnau ansawdd dŵr er mwyn sicrhau bod cefnogaeth addas, buan ac effeithiol yn cael ei gynnig mewn ymateb i faterion yn ymwneud â'r safle

Dyddiad a hyd (Cwmni)	Ardal	Amcangyfrif o'r boblogaeth a effeithiwyd	Natur ac achos y digwyddiad	Prif gamau a darganfyddiadau archwiliad yr Arolygiaeth
12 Meh 2008 am 1 diwrnod (DWR)	Gwaith Llannerch ardaloedd Abergele, Rhyl a Phrestatyn.	200,800	Methiant Clorineiddio	<p>Camau a gymerwyd gan Dŵr Cymru Cyfyngedig:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adferwyd clorineiddio, cynhaliwyd arolwg samplo, cynhaliwyd ymchwiliad i achos methiant diheintio <p>Sylwadau a chanfyddiadau'r ADY:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn feirniadol iawn nad oedd yna strategaeth diheintio penodol i'r safle yn eu lle fel sy'n ofynnol yn ôl Rheoliad 26, er hynny nodwyd bod arolwg o gydymffurfiaeth â Rheoliad 26 yn cael ei gynnal ar draws y cwmni • Argymhellwyd bod y Cwmni'n adolygu pa fesurau y gellid eu rhoi yn eu lle er mwyn gallu nodi'n gynnar unrhyw signalau telemetreg sydd wedi eu 'rhewi' neu eu 'gwneud yn unffurf' gan weithredu'r rhain lle bo hynny'n addas • Argymhellwyd bod y Cwmni'n adolygu'n fanwl y gweithdrefnau ar gyfer monitro profion, yn cynnwys y camau i'w cymryd ar ôl cwblhau'r profi er mwyn cadarnhau bod y meddalwedd yn gweithredu'n effeithiol

Dyddiad a hyd (Cwmni)	Ardal	Amcangyfrif o'r boblogaeth a effeithiwyd	Natur ac achos y digwyddiad	Prif gamau a darganfyddiadau archwiliad yr Arolygiaeth
29 Meh 2008 am 1 diwrnod (DWR)	Gwaith Llanfair-ym Muallt yn bwydo Llanfair-ym Muallt a'r ardal gyfagos	6,300	Lefelau uwch o gymylogrwydd ac alwminiwm mewn dŵr yn gadael y gwaith yn Llanfair-ym Muallt	<p>Camau a gymerwyd gan Dŵr Cymru Cyfyngedig:</p> <ul style="list-style-type: none"> Optimeiddiwyd y broses trin, yr arolwg samplu, cywirwyd problemau gyda'r offer dosio ceulyddion (datgelydd llif ffrydio), atgyweiriwyd prif bibell oedd wedi byrstio ar allanfa'r gronfa wasanaeth wrth ddsbarthu, ymgwymerwyd â chario dŵr mewn tanceri er mwyn cynnal cyflenwadau i'r system ddsbarthu lleol <p>Sylwadau a chanfyddiadau'r ADY:</p> <ul style="list-style-type: none"> Beirniadol iawn o'r cynnydd sylweddol mewn llif trwy'r gwaith heb ystyried yr effaith ar ansawdd terfynol y dŵr ac fe deimlon nhw'r angen i atgoffa'r cwmni i gynnal archwiliad digonol i achos a maint unrhyw fethiant gweithrediadol neu i ddirnad methiant a chymryd unrhyw gamau angenrheidiol i sicrhau bod y dŵr yn iachus Argymhellodd gynnal asesiad risg llawn ar bob opsiwn a ystyriwyd mewn ymateb i'r digwyddiad yma a darparu manylion yn yr adroddiad terfynol i'r Arolygiaeth. Argymhellodd bod y Cwmni'n gweithredu i sicrhau bod canlyniadau ailsamplu boddhaol yn cael eu casglu ar gyfer yr holl bamedrau sy'n methu cwrdd â safon rheoleiddiol yn ystod digwyddiad Argymhellodd bod samplau'n cael eu casglu ar gyfer yr holl bamedrau priodol yn ystod achos o ansawdd dŵr er mwyn canfod maint llawn yr effaith ar ansawdd dŵr

Dyddiad a hyd (Cwmni)	Ardal	Amcangyfrif o'r boblogaeth a effeithiwyd	Natur ac achos y digwyddiad	Prif gamau a darganfyddiadau archwiliad yr Arolygiaeth
10 Gorff 2008 am 1 diwrnod (DWR)	Gwaith Maerdy ac ardaloedd Maerdy a Phorth	47,000	Lefelau uwch o haearn a chymylogrwydd mewn dŵr wedi ei drin yn gadael y gwaith	<p>Camau a gymerwyd gan Dŵr Cymru Cyfyngedig:</p> <ul style="list-style-type: none"> Arolwg samplu, gwaed y gorau o'r broses trin, ymgwymerwyd ag arolwg o'r opsiynau ar gyfer gwelliannau gweithrediadol yn y gwaith <p>Sylwadau a chanfyddiadau'r ADY:</p> <ul style="list-style-type: none"> Argymhellodd arolwg o weithrediadau'r system ddiffodd frys er mwyn sicrhau bod y diffodd yn cael ei sbarduno'n gyflym unwaith y bydd setiadau targedau a bennwyd yn cael eu torri. Argymhellodd arolwg o'r opsiynau sydd ar gael ar gyfer gwelliannau gweithrediadol yn y gwaith yn cynnwys ystyried rhediad i gyfleuster gwastraff er mwyn sicrhau y gellir ailgychwyn y gwaith ac y gellir sefydlogi'r broses drin cyn pwmpio i mewn i'r cyflenwad Rhodddwyd cyngor am y broses dod i benderfyniadau er mwyn sicrhau bod symbyliadau'n cael eu gosod ar gyfer cangod pryd nad yw gweithrediadau adferol yn profi i fod yn effeithiol a phan fo angen cefnogaeth ac/neu weithgareddau o bosibl
10 Gorff 2008 am 1 diwrnod (DWR)	Gwaith Llyswen yn cyflenwi ardaloedd gwledig ym Mhowys a Swydd Henffordd yn cynnwys y Gelli Gandryll, Clyro, Clas ar Wy, Llanbedr Castell Paen, Talgarth a Bronllys	62,500	Lefelau uwch o haearn a chymylogrwydd mewn dŵr wedi ei drin yn gadael y gwaith	<p>Camau a gymerwyd gan Dŵr Cymru Cyfyngedig:</p> <ul style="list-style-type: none"> Cywirwyd y problemau gyda'r gwaith dosio calch, gwellwyd y broses drin, cynhaliwyd arolwg samplu, cynlluniau yn eu lle i newid y system dosio calch presennol <p>Sylwadau a chanfyddiadau'r ADY:</p> <ul style="list-style-type: none"> Argymhellodd arolwg o'r strategaeth monitro ar y safle hon yn ogystal â'r larymau a'r gosodiadau larymau cysylltiedig. Argymhellodd arolwg o weithdrefnau ansawdd dŵr ar gyfer pob gwaith trin dŵr er mwyn sicrhau bod cefnogaeth addas, buan ac effeithiol yn cael ei ddarparu mewn ymateb i faterion yn codi o'r safle

Dyddiad a hyd (Cwmni)	Ardal	Amcangyfrif o'r boblogaeth a effeithiwyd	Natur ac achos y digwyddiad	Prif gamau a darganfyddiadau archwiliad yr Arolygiaeth
11 Gorff 2008 am 2 ddiwrnod (DWR)	Gwaith Pentywyn yn cyflenwi Pentywyn, Hendy-gwyn, Sanclêr, Talacharn a rhannau gwledig o Dde Orllewin Sir Gaerfyrddin	7,781	Lefelau uwch o gymylogrwydd mewn dŵr wedi ei drin yn gadael y gwaith	<p>Camau a gymerwyd gan Dŵr Cymru Cyfyngedig:</p> <ul style="list-style-type: none"> Cynhaliwyd arolwg samplo, gwellwyd y broses drin, adolygiad o reoli'r gronfa dŵr crai i'w gwblhau, y gronfa dŵr crai i'w chau er mwyn ei glanhau <p>Sylwadau a chanfyddiadau'r ADY:</p> <ul style="list-style-type: none"> Beirniadol o'r dulliau i reoli algâu yn y gronfa dŵr crai oedd yn aneffeithiol er bod camau wedi eu cymryd i gywiro hyn Argymhellodd adolygiad o fesurau diogelu dŵr crai yn nhwll turio Morfa Bychan Argymhellodd bod yr adnewyddiad arfaethedig o ffiltradau'n cael ei gynnal mor fuan ag sy'n ymarferol bosibl Argymhellodd arolwg o'r holl weithrediadau a ystyriwyd ac a gwblhawyd yn ystod yr achos yma a'r achos arall a nodwyd ar y 6 Awst er mwyn sicrhau bod unrhyw bwyntiau dysgu'n cael eu cynnwys yng ngweithdrefnau'r Cwmni
06 Awst 2008 am 2 ddiwrnod (DWR)	Gwaith Pentywyn yn cyflenwi Pentywyn, Hendy-gwyn, Sanclêr, Talacharn a rhannau gwledig o Dde Orllewin Sir Gaerfyrddin	7,781	Lefelau uwch o chymylogrwydd a haearn mewn dŵr wedi ei drin yn gadael y gwaith	<p>Camau a gymerwyd gan Dŵr Cymru Cyfyngedig:</p> <ul style="list-style-type: none"> Cynhaliwyd arolwg samplo, gwellwyd y broses drin, adolygiad o reoli'r gronfa dŵr crai i gael ei gynnal, y gronfa dŵr crai i gael ei thynnu o wasanaeth i gael ei glanhau <p>Sylwadau a chanfyddiadau'r ADY:</p> <ul style="list-style-type: none"> Gweler yr achos ar 11 Gorffennaf 2008

Dyddiad a hyd (Cwmni)	Ardal	Amcangyfrif o'r boblogaeth a effeithiwyd	Natur ac achos y digwyddiad	Prif gamau a darganfyddiadau archwiliad yr Arolygiaeth
09 Awst 2008 am 3 diwrnod (DWR)	Gwaith Pen-y-bont yn cyflenwi Tywyn, Aberdyfi a'r ardaloedd cyfagos	7,781	Rhybudd Berwi Dŵr ar gyfer defnyddwyr a gyflenwir gan waith Penybont	<p>Camau a gymerwyd gan Dŵr Cymru Cyfyngedig:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ailosodwyd gwaith trin UV yn y gwaith, cyhoeddwyd cyngor i ferwi dŵr wedi derbyn canlyniadau sampl cryptosporidiwm, codwyd y cyngor i ferwi dŵr ar ôl cadarnhad bod yr holl ddŵr nad oedd wedi ei drin â UV wedi pasio drwy'r system ddosbarthu, cyflwynwyd canllaw ychwanegol ac addaswyd y gweithdrefnau gwaith <p>Sylwadau a chanfyddiadau'r ADY:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Beirniadol iawn nad oedd canllaw ar weithredu'r gwaith yn ei le ar adeg y digwyddiad, beirniadol iawn bod y mater o'r cyngor i ferwi dŵr wedi ei oedi oherwydd bod oedi wedi digwydd wrth lunio'r Tîm Rheoli Digwyddiadau • Argymhellodd y dylai gweithdrefnau gael eu sefydlu fel bod digwyddiadau o'r fath yn cael eu cyfeirio'n syth i fyny i lefel y Rheolwyr Hÿn • Argymhellodd y dylai ymgynghoriad gyda rhydd-ddeiliaid allweddol ddigwydd ar bob cam lle mae penderfyniadau allweddol yn ymwneud â iechyd y cyhoedd yn cael eu hystyried • Argymhellodd gynnal ymchwiliad i'r rheswm pam nad oedd rhybuddion i ferwi dŵr wedi cael eu dosbarthu i ddwy stryd benodol yn Nhywyn ac os oes angen, diweddarau'r gweithdrefnau a'r cofnodion ar gyfer yr ardal

Dyddiad a hyd (Cwmni)	Ardal	Amcangyfrif o'r boblogaeth a effeithiwyd	Natur ac achos y digwyddiad	Prif gamau a darganfyddiadau archwiliad yr Arolygiaeth
27 Awst 2008 am 20 diwrnod (DWR)	Gwaith Mynydd Llandegai yn cyflenwi rhannau o Ogledd Gwynedd	66,550	Cyhoeddi cyngor i ferwi dŵr oherwydd presenoldeb <i>Cryptosporidium</i> mewn dŵr crai	<p>Camau a gymerwyd gan Dŵr Cymru Cyfyngedig:</p> <ul style="list-style-type: none"> Ailbarthu, cyhoeddi cyngor i ferwi dŵr, ymchwiliadau dalgylch a safle i ddod o hyd i ffynhonnell oocysts, gwaith trin UV wedi ei osod, cyngor i ferwi dŵr wedi ei godi yn dilyn comisiynu llwyddiannus y gwaith UV a chael cadarnhad mai dim ond dŵr wedi ei drin ag UV sy'n aros yn y cyflenwad <p>Sylwadau a chanfyddiadau'r ADY:</p> <ul style="list-style-type: none"> Roedd yr archwiliad i ffynhonnell y <i>Cryptosporidium</i> yn drylwyr, problemau gyda dosbarthu'r cyngor i ferwi dŵr Beirniadaeth o'r cynnydd araf gyda'r cynlluniau presennol i osod gwaith ceulo yn y gwaith
05 Tach 2008 am 3.5 awr (DWR)	Gwaith Pontsticill	100,000	Colli ceulo yn y gwaith	<p>Camau a gymerwyd gan Dŵr Cymru Cyfyngedig:</p> <ul style="list-style-type: none"> Cynhaliwyd arolwg samplu. Gwnaed newidiadau i'r gweithdrefnau, adolygiad o'r newid trosodd awtomatig o danciau ceulo ar gyfer pob gwaith <p>Sylwadau a chanfyddiadau'r ADY:</p> <ul style="list-style-type: none"> Beirniadol iawn o'r diffyg o asesiad risg wrth weithredu gyda dim ond un tanc a gosod y system dosio ceulyddion ond nodwyd bod newidiadau wedi ei gwneud i leihau'r risg o ddychweliad
12 Tach 2008 am 1 diwrnod (DWR)	Adeilad unigol ger Coastlands Bae Oxwich	3	Yr eiddo wedi ei gysylltu i garthffos nid prif gyflenwad dŵr	<p>Camau a gymerwyd gan Dŵr Cymru Cyfyngedig:</p> <ul style="list-style-type: none"> Cynhaliwyd archwiliad ar y safle, cymerwyd samplau, addaswyd gweithdrefnau cysylltiadau newydd i gynnwys gwiriadau ychwanegol <p>Sylwadau a chanfyddiadau'r ADY:</p> <ul style="list-style-type: none"> Asesiad yn gyfredol

Dyddiad a hyd (Cwmni)	Ardal	Amcangyfrif o'r boblogaeth a effeithiwyd	Natur ac achos y digwyddiad	Prif gamau a darganfyddiadau archwiliad yr Arolygiaeth
14 Tach 2008 am 12 awr (SVT)	Gorsaf bwmpio Twll Turio Llandinam a chronfa wasanaeth Llandinam rhwng y Drenewydd a Llandinam, Cymru	19,557	Colli cyflenwad oherwydd bod y gronfa wasanaeth wedi sychu	<p>Camau a gymerwyd gan Severn Trent Water:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Darparu cyflenwad amgen trwy gyfrwng tanceri/bowser • Atgyweirio cyfarpar oedd wedi torri • Ailbarthu'r ardal (dod â dŵr i mewn o ffynhonnell arall) • Adolygu'r gweithdrefnau • Samplu'r ardal a effeithiwyd <p>Sylwadau a chanfyddiadau'r ADY:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Methiant ymateb i'r larwm gwreiddiol yn nodi colli telemetreg a gweithdrefnau annigonol
27 Tach 2008 am 1 diwrnod (DWR)	Gwaith Hirwaun, Hirwaun, ger Merthyr Tydfil	12,195	Colli hidlo effeithiol oherwydd gwaith cynnal a chadw	<p>Camau a gymerwyd gan Dŵr Cymru Cyfyngedig:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnal arolwg samplu, lleihau'r llif drwy'r gwaith, creu parthau newydd er mwyn lleihau'r ardal a gyflenwir, comisiynwyd adroddiad i'r opsiynau ar gyfer adnewyddu gwaith hidlo <p>Sylwadau a chanfyddiadau'r ADY:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'n gritigol bod y cwmni wedi methu â rhoi gwybod am y digwyddiad hwn i'r Arolygiaeth am bedwar diwrnod • Argymhellodd asesiad risg llawn, wedi ei ddogfennu cyn i unrhyw newid gweithrediadol sylweddol gael ei wneud mewn gwaith trin dŵr

Dyddiad a hyd (Cwmni)	Ardal	Amcangyfrif o'r boblogaeth a effeithiwyd	Natur ac achos y digwyddiad	Prif gamau a darganfyddiadau archwiliad yr Arolygiaeth
15 Rhag 2008 am 6 awr (DWR)	Gwaith Llyswen yn cyflenwi ardaloedd gwledig ym Mhowys a Swydd Henffordd yn cynnwys y Gelli Gandryll, Clyro, Clas ar Wy, Llanbedr Castell Paen, Talgarth a Bronllys	10,000	Lefelau uwch o gymylogrwydd mewn dŵr wedi ei drin	<p>Camau a gymerwyd gan Dŵr Cymru Cyfyngedig:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cywirwyd problemau gyda'r gwaith dosio calch, gwellwyd y broses drin, cynhaliwyd arolwg o'r samplo, cynlluniau yn eu lle i newid y system dosio calch presennol <p>Sylwadau a chanfyddiadau'r ADY:</p> <p>Gweler y digwyddiadau ar 29 Mai a 10 Gorffennaf</p>

Noder: Mae tabl cyflawn o ddiwyddiadau yn Lloegr a Chymru i'w gael ar y gryno-ddisg yn y ffolder hon. Yr enw arno yw **Incidents in England and Wales 2008.pdf**. Mae hefyd ar gael ar wefan yr ADY ar <http://www.dwi.gov.uk>

Atodiad 4

Rhaglen o Welliannau yn y rhanbarth

Cwmni	Paramedr neu Berygl	Safle	Statws	Dyddiad y disgwylir gorffen y gwaith adeiladu
Dŵr Cymru Welsh Water	Haearn, Manganîs, Alwminiwm a Chymylogrwydd	Gwaith ar y system ddosbarthu	Cyfredol	31- Maw-10
Dŵr Cymru Welsh Water	Plwm	Talybont	Cyfredol	31- Rhag-09
Dŵr Cymru Welsh Water	Manganîs	Crai	Cyfredol	31- Maw-10
Dŵr Cymru Welsh Water	Plaladdwyr	Bretton	Cwblhawyd 26-Maw-08	
Dŵr Cymru Welsh Water	Blas ac arogl	Talybont	Cyfredol	31- Rhag-09
Dŵr Cymru Welsh Water	Blas ac arogl	Court Farm	Cyfredol	31- Maw-10
Dŵr Cymru Welsh Water	Cymylogrwydd	Pen-y-Bont	Cwblhawyd 30-Rhag-08	

Atodiad 5

Cystadleuaeth yn y diwydiant dŵr

Mae'r tabl canlynol yn nodi lefel y cystadlu o fewn y diwydiant dŵr yng Nghymru a Lloegr.

Apwyntiadau mewnosod mewn grym yn 2008

Enw	Cyflenwr trwyddedig	Cyflenwr gwreiddiol*	Statws
Buxted Chicken, Flixton	Anglian Water	Essex and Suffolk Water, Rhanbarth y Dwyrain	Cyflenwi dŵr
Fairfield Park a Lower Wilbury Farm, Arlesey	Three Valleys Water	Anglian Water, Rhanbarth y Dwyrain	Cyflenwi dŵr
Northern Foods (Bowyers), Trowbridge	Wessex Water	Wessex Water, Rhanbarth y Gorllewin	Cyflenwi dŵr
Shotton Paper Works, Shotton	Albion Water	Dŵr Cymru Cymru	Cyflenwi dŵr
Tidworth ger Andover	Thames Water	Wessex Water, Rhanbarth y Gorllewin	Cyflenwi dŵr
Wynyard Business Park, ger Wolveston	Hartlepool Water	Northumbrian Water, Rhanbarth y Gogledd	Cyflenwi dŵr
Old Sarum, The Portway	SSE Water	Wessex Water, Rhanbarth y Gorllewin	Cyflenwi dŵr
Longcroft Road, Corby	Independent Water Networks Ltd	Anglian Water, Rhanbarth y Dwyrain	Cyflenwi dŵr
Priors Hall, Corby	Independent Water Networks Ltd	Anglian Water, Rhanbarth y Dwyrain	Cyflenwi dŵr

Apwyntiadau mewnosod newydd ar gyfer 2009

Enw	Cyflenwr trwyddedig posib	Cyflenwr gwreiddiol*	Statws
Tidworth ger Andover	Veolia Water	Wessex Water, Rhanbarth y Gorllewin	Wedi apwyntio
Media City, Manchester	Peel Utilities	United Utilities, Rhanbarth y Gogledd	Wedi apwyntio
Valleywood ger Llanilid	SSE Water	Dŵr Cymru, Cymru	Wedi apwyntio
Hale Village, Tottenham	SSE Water	Thames Water, Rhanbarth Thames	Aros apwyntiad
Great Billing Way, Northampton	Independent Water Networks Ltd	Anglian Water, Rhanbarth y Dwyrain	Wedi apwyntio

*Cyflenwr gwreiddiol ar adeg preifateiddio yn 1989

Ceisiadau am drwydded cyflenwi dŵr hyd yn hyn

Enw'r cwmni	Math o drwydded	Dyddiad y rhoddwyd y drwydded gan Ofwat	Statws
Aquavitae	Cyfun	1 Rhagfyr 05	Ddim yn gweithredu eto
Watercall Ltd	Cyfun	1 Rhagfyr 05	Ddim yn gweithredu eto
Severn Trent Water Select Ltd	Cyfun	1 Rhagfyr 05	Ddim yn gweithredu eto
YorWater Ltd	Adwerth	21 Mawrth 06	Ddim yn gweithredu eto
Satec Ltd	Cyfun	24 Mai 06	Ddim yn gweithredu eto
UU Water Sales Ltd	Cyfun	3 Ionawr 07	Ddim yn gweithredu eto
Osprey Water Services Ltd	Cyfun	3 Ionawr 07	Ddim yn gweithredu eto

Atodiad 6

Aseidiadau risg rheoliad 27 fesul awdurdod lleol

Awdurdod Lleol	Cwmni	Nifed yr aseidiadau risg rheoliad 27
Cyngor Sir Blaenau Gwent	Dŵr Cymru	1
Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont	Dŵr Cymru	1
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	Dŵr Cymru	2
Cyngor Sir Caerdydd	Dŵr Cymru	1
Cyngor Sir Caerfyrddin	Dŵr Cymru	3
Cyngor Sir Ceredigion	Dŵr Cymru	2
Cyngor Cheshire and Chester	Dee Valley Water Dŵr Cymru	2 2
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Dŵr Cymru	4
Cyngor Sir Ddinbych	Dee Valley Water Dŵr Cymru	2 2
Cyngor Sir y Fflint	Albion Water Dee Valley Water Dŵr Cymru	1 4 2
Cyngor ardal Forest of Dean	Dŵr Cymru	1
Cyngor Sir Gwynedd	Dŵr Cymru	6
Cyngor Sir Ynys Môn	Dŵr Cymru	2
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tydfil	Dŵr Cymru	1
Cyngor Sir Sir Fynwy	Dŵr Cymru	3
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd	Dŵr Cymru	1
Cyngor Dinas Casnewydd	Dŵr Cymru	1
Cyngor Sir Benfro	Dŵr Cymru	1
Cyngor Sir Powys	Dŵr Cymru	2
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	Dŵr Cymru	2
Cyngor Bwrdeistref a Dinas Abertawe	Dŵr Cymru	1
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	Dŵr Cymru	2
Cyngor Bro Morgannwg	Dŵr Cymru	2
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	Dee Valley Water	4

Atodiad 7

Tablau crynhoi data cwmnïau dŵr

Albion Water

Trefniadau cyflenwi dŵr

Asedau'r cwmni		Y dŵr a gyflenwyd	
Nifer o weithiau trin	0	Y dŵr a gyflenwyd (l/dydd)	43,000
Nifer o gronfeydd gwasanaeth	0	Canran o ffynonellau wyneb	100
Nifer i barthau cyflenwi dŵr	1	Canran o ffynonellau tir	0
Hyd peipen y prif gyflenwad (km)	0	Canran o ffynonellau cymysg	0
Y boblogaeth a wasanaethir		Ardal a gyflenwir	
Y boblogaeth a gyflenwir	260	Sir y Fflint	
Y nifer o awdurdodau lleol	1		

Data crynodeb ansawdd dŵr yfed

	Ffigurau'r cwmni			Cyfartaledd y diwydiant
	2006	2007	2008	2008
Ansawdd cyffredinol y dŵr yfed*	100%	99.38%	100%	99.96%
Trin dŵr				
Mynegai'r Broses Rheoli	N/A	N/A	N/A	99.98%
Mynegai diheintio	N/A	N/A	N/A	99.93%
Systemau dosbarthu				
Mynegai Cynnal Dosbarthu	100%	100%	100%	99.85%
Mynegai Cywirdeb y Gronfa	N/A	N/A	N/A	99.96%
Adeiladu systemau dŵr				
Paramedaru gaiff eu dylanwadu gan systemau dŵr domestig	100%	100%	100%	99.88%

Cysylltiadau defnyddwyr

	Ffigurau'r cwmni			Cyfartaledd y diwydiant
	2006	2007	2008	2008
Hysbysu defnyddwyr				
Cyfanswm	0	0	0	N/A
Graddfa fesul 1,000 o'r boblogaeth	0	0	0	1.22
Derbynioldeb dŵr i gwsmeriaid				
Cyfanswm	0	0	6	N/A
Graddfa fesul 1,000 o'r boblogaeth	0	0	23.08	2.55

Cwynion i'r Arolygiaeth Dŵr Yfed

Ni wnaeth unrhyw ddefnyddwyr Albion Water gysylltu â'r ADY yn uniongyrchol yn 2008

Noder: Mae crynodeb o ganlyniadau ar gyfer pob cwmni o brofion ar gyfer paramedrau unigol ar gael ar wefan yr ADY ar <http://www.dwi.gov.uk>

* Ansawdd cyffredinol dŵr yfed fel y'i gynrychiolir gan gydymffurfiaeth cylchfaol cymedrig ar gyfer 39 o baramedrau.

Dee Valley Water plc

Trefniadau cyflenwi dŵr

Asedau'r cwmni		Y dŵr a gyflenwyd	
Nifer o weithiau trin	6	Y dŵr a gyflenwyd (l/dydd)	66
Nifer o gronfeydd gwasanaeth	31	Canran o ffynonellau wyneb	94
Nifer i barthau cyflenwi dŵr	18	Canran o ffynonellau tir	6
Hyd peipen y prif gyflenwad (km)	1,960	Canran o ffynonellau cymysg	0
Y boblogaeth a wasanaethir		Ardal a gyflenwir	
Y boblogaeth a gyflenwir	260,710	Swydd Caerllion, Sir y Fflint, Sir Ddinbych	
Y nifer o awdurdodau lleol	4		

Data crynodeb ansawdd dŵr yfed

	Ffigurau'r cwmni			Cyfartaledd y diwydiant
	2006	2007	2008	2008
Ansawdd cyffredinol y dŵr yfed*	99.99%	99.97%	99.92%	99.96%
Trin dŵr				
Mynegai'r Broses Rheoli	100%	99.92%	99.99%	99.98%
Mynegai diheintio	99.38%	99.22%	99.77%	99.93%
Systemau dosbarthu				
Mynegai Cynnal Dosbarthu	99.92%	100%	99.61%	99.85%
Mynegai Cywirdeb y Gronfa	99.94%	99.85%	99.88%	99.96%
Adeiladu systemau dŵr				
Paramedaru gaiff eu dylanwadu gan systemau dŵr domestig	99.96%	99.92%	99.84%	99.88%

Cysylltiadau defnyddwyr

	Ffigurau'r cwmni			Cyfartaledd y diwydiant
	2006	2007	2008	2008
Hysbysu defnyddwyr				
Cyfanswm	260	232	202	N/A
Graddfa fesul 1,000 o'r boblogaeth	1	0.89	0.77	1.22
Derbynioldeb dŵr i gwsmeriaid				
Cyfanswm	452	493	689	N/A
Graddfa fesul 1,000 o'r boblogaeth	1.74	1.89	2.64	2.55
Cwynion i'r Arolygiaeth Dŵr Yfed Ni wnaeth unrhyw ddefnyddwyr Dee Valley Water plc gysylltu â'r ADY yn uniongyrchol yn 2008				

Noder: Mae crynodeb o ganlyniadau ar gyfer pob cwmni o brofion ar gyfer paramedrau unigol ar gael ar wefan yr ADY ar <http://www.dwi.gov.uk>

* Ansawdd cyffredinol dŵr yfed fel y'i gynrychiolir gan gydymffurfiaeth cylchfaol cymedrig ar gyfer 39 o baramedrau.

Dŵr Cymru Welsh Water

Trefniadau cyflenwi dŵr

Asedau'r cwmni		Y dŵr a gyflenwyd	
Nifer o weithiau trin	87	Y dŵr a gyflenwyd (ml/dydd)	840
Nifer o gronfeydd gwasanaeth	557	Canran o ffynonellau wyneb	~97
Nifer i barthau cyflenwi dŵr	92	Canran o ffynonellau tir	~3
Hyd peipen y prif gyflenwad (km)	27,363	Canran o ffynonellau cymysg	<1
Y boblogaeth a wasanaethir		Ardal a gyflenwir	
Y boblogaeth a gyflenwir	2,882,000	Conwy, Sir Fôn, Blaenau Gwent, Bridgend, Gwynedd, Caerffili, Caerdydd, Sir Aberteifi, Sir Gaerfyrddin, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Merthyr Tydfil, Sir Fynwy, Castell Nedd a Phort Talbot, Casnewydd, Sir Benfro, Powys, Rhondda Cynon Taf, Abertawe, Torfaen, Bro Morgannwg, rhannau o Swydd Henffordd	
Y nifer o awdurdodau lleol	23		

Data crynodeb ansawdd dŵr yfed

	Ffigurau'r cwmni			Cyfartaledd y diwydiant
	2006	2007	2008	2008
Ansawdd cyffredinol y dŵr yfed*	99.95%	99.95%	99.95%	99.96%
Trin dŵr				
Mynegai'r Broses Rheoli	99.94%	99.84%	99.99%	99.98%
Mynegai diheintio	99.87%	99.90%	99.88%	99.93%
Systemau dosbarthu				
Mynegai Cynnal Dosbarthu	99.70%	99.84%	99.83%	99.85%
Mynegai Cywirdeb y Gronfa	99.97%	99.91%	99.95%	99.96%
Adeiladu systemau dŵr				
Paramedaru gaiff eu dylanwadu gan systemau dŵr domestig	99.92%	99.89%	99.84%	99.88%

Cysylltiadau defnyddwyr

	Ffigurau'r cwmni			Cyfartaledd y diwydiant
	2006	2007	2008	2008
Hysbysu defnyddwyr				
Cyfanswm	1,576	4,476	2,654	N/A
Graddfa fesul 1000 o'r boblogaeth	0.55	1.52	0.9	1.22
Derbynioldeb dŵr i gwsmeriaid				
Cyfanswm	17,312	14,682	13,301	137,596
Graddfa fesul 1000 o'r boblogaeth	6.00	4.98	4.5	2.55

Cwynion i'r Arolygiaeth Dŵr Yfed
Cysylltodd cyfanswm o 4 defnyddiwr o Dŵr Cymru Welsh Water yn uniongyrchol â'r ADY yn 2008

Noder: Mae crynodeb o ganlyniadau ar gyfer pob cwmni o brofion ar gyfer paramedrau unigol ar gael ar wefan yr ADY ar <http://www.dwi.gov.uk>

* Ansawdd cyffredinol dŵr yfed fel y'i gynrychiolir gan gydymffurfiaeth cylchfaol cymedrig ar gyfer 39 o baramedrau.

Severn Trent plc

Trefniadau cyflenwi dŵr

Asedau'r cwmni		Y dŵr a gyflenwyd	
Nifer o weithiau trin	184	Y dŵr a gyflenwyd (ml/dydd)	2,002
Nifer o gronfeydd gwasanaeth	667	Canran o ffynonellau wyneb	63
Nifer i barthau cyflenwi dŵr	208	Canran o ffynonellau tir	34
Hyd peipen y prif gyflenwad (km)	46,484	Canran o ffynonellau cymysg	3
Y boblogaeth a wasanaethir		Ardal a gyflenwir	
Y boblogaeth a gyflenwir	7,369,000	Swydd Derby, Swydd Nottingham, Swydd Gaerlŷr, Swydd Warwick, Swydd Caerloyw, Swydd Gaerwrangon, Swydd Amwythig, Swydd Stafford, Gorllewin Canolbarth Lloegr, Powys	
Y nifer o awdurdodau lleol	68		

Data crynodeb ansawdd dŵr yfed

	Ffigurau'r cwmni			Cyfartaledd y diwydiant
	2006	2007	2008	2008
Ansawdd cyffredinol y dŵr yfed*	99.98%	99.96%	99.97%	99.96%
Trin dŵr				
Mynegai'r Broses Rheoli	99.97%	99.92%	>99.99%	99.98%
Mynegai diheintio	99.97%	99.98%	99.98%	99.93%
Systemau dosbarthu				
Mynegai Cynnal Dosbarthu	99.92%	99.86%	99.94%	99.85%
Mynegai Cywirdeb y Gronfa	99.93%	99.95%	99.96%	99.96%
Adeiladu systemau dŵr				
Paramedaru gaiff eu dylanwadu gan systemau dŵr domestig	99.82%	99.84%	99.87%	99.88%

Cysylltiadau defnyddwyr

	Ffigurau'r cwmni			Cyfartaledd y diwydiant
	2006	2007	2008	2008
Hysbysu defnyddwyr				
Cyfanswm	827	801	806	N/A
Graddfa fesul 1000 o'r boblogaeth	0.11	0.11	0.11	1.22
Derbynioldeb dŵr i gwsmeriaid				
Cyfanswm	13,983	13,250	12,329	N/A
Graddfa fesul 1000 o'r boblogaeth	1.86	1.81	1.67	2.55
Cwynion i'r Arolygiaeth Dŵr Yfed Cysylltodd cyfanswm o 10 defnyddiwr o Severn Trent plc yn uniongyrchol â'r ADY yn 2008				

Noder: Mae crynodeb o ganlyniadau ar gyfer pob cwmni o brofion ar gyfer paramedrau unigol ar gael ar wefan yr ADY ar <http://www.dwi.gov.uk>

* Ansawdd cyffredinol dŵr yfed fel y'i gynrychiolir gan gydymffurfiaeth cylchfaol cymedrig ar gyfer 39 o baramedrau.



guardians of drinking water quality

Drinking Water Inspectorate | 55, Whitehall | London | SW1A 2EY | Tel: 020 7270 3370

<http://www.dwi.gov.uk>